# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol (y Bwrdd) yng /STrosedd

## Am y flwyddyn adrodd 1 Hydref 2024 hy 30 Medi 2025

Cyhoeddwyd Ebrill 2026

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 6 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 12 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 16 |
| 6. | Iechyd a lles | 21 |
| 7. | Cynnydd ac Adsefydlu | 27 |
| **Gwaith y Bwrdd** | | |
| Ystadegau'r Bwrdd | | 30 |
| Ceisiadau i'r Bwrdd | | 31 |
| **Atodiad A** | | |
| Darparwyr gwasanaeth | | 32 |


**Cyhoeddir holl adroddiadau'r Bwrdd ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned y mae'r carchar wedi'i leoli ynddi.

Dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd ag o gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- fodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar pa mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith y mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

Fel bod y Bwrdd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a mathau eraill o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o fregus a'i nod yw ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

**Y Bwrdd yng Ngharchar /Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc**

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Bwrdd wedi wynebu heriau sylweddol wrth gynnal gwaith monitro cynhwysfawr oherwydd nifer gyfyngedig y staff. Mae'r Bwrdd wedi mynd drwy newid sylweddol, gydag aelodaeth yn newid a phrosesau'n datblygu trwy gydol yr amser hwn. Mae'r heriau hyn wedi cael effaith ar rai agweddau o ddyfnder yr adroddiad hwn. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad oedd y gwaith monitro wedi datblygu ddigon ond mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud dros y 12 mis diwethaf i gryfhau arferion, cynyddu nifer y staff a sefydlu dull gweithredu mwy cadarn. Wrth symud ymlaen, nod y Bwrdd yw cynhyrchu adroddiad mwy sylweddol a yrrir gan dystiolaeth.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yw unig garchar preifat Cymru. Agorodd yn 1997 a chaiff ei reoli gan G4S ar ran Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf) a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa. Mae gan yr HMPPS yng Nghymru uwch-was sifil penodedig sy'n goruchwylio'r holl drefniadau contractyddol yng Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc (G4S, dysgu a sgiliau a gofal iechyd). Cefnogir yr uwch-was sifil gan dîm rheoli ar y safle, sy'n rheoli gwaith monitro beunyddiol y contract. Mae Cyfarwyddwr y carchar, a gyflogir gan G4S, yn

cyfateb i Lywodraethwr mewn sefydliad cyhoeddus. Sicrhaodd G4S gontract deg mlynedd i redeg Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, gyda'r gwasanaethau'n dechrau ym mis Rhagfyr 2022.

Carchar adsefydlu categori C yw Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc (ar gyfer y rhai hynny nad oes modd ymddiried ynddynt mewn carchar agored ond yr ystyrrir nad ydynt yn debygol o geisio dianc) ac mae ynddo ddynion dros 18 oed a euogfarnwyd, yn ogystal â charcharorion bregus a euogfarnwyd neu sydd ar remánd ( y rhai hynny a gedwir ar wahân i garcharorion y prif garchar oherwydd y gallent fod mewn perygl o gael niwed gan garcharorion eraill, oherwydd eu trosedd, eu hoedran eu hanabledd neu eu pryderon am ddiogelwch personol.)  Mae'r Uned Person Ifanc yng nghyfadeilad carchar mwy y Parc ac wedi'i ddynodi ar gyfer dynion ifanc rhwng 15 a 18 mlwydd oed sydd un ai wedi'u heuogfarnu neu ar remánd.

Mae Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn agos i Ben-y-bont ar Ogwr ac wedi'i gysylltu'n dda gan ffyrdd a rheilffyrdd ac yn recriwtio nifer o staff lleol. Mae gan Garchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc lety arferol sylfaenol ardystiedig (nifer y carcharorion y gall carchar ei dal heb fod yn orlawn) o 1,559 o oedolion, gyda chapasiti gweithredol ( nifer ychaf y carcharorion y gellir eu dal heb risgiau difrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a chynnal y carchar yn iawn) o 1849 (yn cynnwys pobl ifanc). Mae lle i 464 carcharor yn yr uned carcharorion bregus, er mai 424 yw ei chapasiti gweithredol. Mae gan yr Uned Person Ifanc i hyd at 46 o bobl ifanc. Ar 30 Medi 2025, torrwyd cylch troseddu 1785 o oedolion a 26 o bobl ifanc a chawsant gymorth i adsefydlu. Roedd oddeutu 16% o'r carcharorion o leiafrifoedd ethnig; roedd 5% yn wladolion tramor ac roedd llai na 3% yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf.

Yn ystod y cyfnod adrodd, arolygwyd Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn ddirybudd gan
Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP). Cyhoeddwyd casgliadau o'r arolwg hwn ar 23 Ebrill 2025. Roedd canlyniadau i garcharorion, yn erbyn pedwar 'prawf carchardai iach' yn wael o ran diogelwch ac nid yn ddigon da o ran parch, gweithgaredd pwrpasol a pharatoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Mewn ymateb i'r casgliadau hyn, mae arweinyddiaeth Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, mewn cydweithrediad â phartneriaid, wedi datblygu cynllun gweithredu "Six for Twenty Six" i flaenoriaethu gwelliannau yn y meysydd hyn. Trefnwyd cynnal Adolygiad Annibynnol o Gynnydd ym mis Ionawr 2026.

**Nodyn am ddefnyddio data ac iaith yn yr adroddiad blynyddol**

Mae cyfnod adrodd y Bwrdd ar gyfer Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi newid ers 2021. Mae adroddiadau wedi'u cyfuno i gynnwys cyfnodau hwy na blwyddyn ac wedi cyfuno carchar yr oedolyn a charchar y person ifanc.  Am y rhesymau hyn, pwysig yw nodi mai cyfyngiedig yw cymariaethau data rhwng cyfnodau adrodd[1].

Lle cyfeiria sylwadau at y prif garchar, yn cynnwys troseddwyr ifanc [dynion rhwng 18 a 25 mlwydd oedd] defnyddiwyd y termau 'dynion', 'oedolion', neu 'garcharorion'.

Mae'r term 'pobl ifanc' wedi'i ddefnyddio i gyfeirio at y rhai hynny rhwng 15 a 18 mlwydd oed. Lle mae sylwadau'n cyfeirio at garchar yr oedolion a'r Uned Person Ifanc,

[1]Gwybodaeth am reoli'n lleol yw'r ffigurau yn yr adroddiad hwn. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg yr adrodd ond gallent newid yn sgil rhagor o ddilysrwydd ac, felly, efallai na fyddent bob amser yn cyd-fynd ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn hwyrach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

defnyddir y term 'carcharorion'. Lle bu'n bosibl ac yn briodol, mae'r adroddiad wedi gwahaniaethu rhwng casgliadau'r Bwrdd ar gyfer y carchar a'r Uned Person Ifanc.

## 3. Pwyntiau allweddol

Gwaethygwyd y ffaith nad oedd digon o staff, rhywbeth a briodolwyd i drafferthion recriwtio a chadw staff ac, yn rhannol, i bwysau nifer y carcharorion yn genedlaethol, gan oedi yn system fetio'r llywodraeth a nifer uchel o achosion o oruchwylio carcharorion oedd yn gleifion mewn ysbyty. Nid yn unig y llesteiriai hyn waith cyflwyno cyfundrefn adsefydliadol yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, rhwystrai, hefyd, ddatblygiad cynlluniau gwella. Gweithredai'r carchar gyfundrefn gyfyngedig yn rheolaidd (y drefn feunyddiol a chyfres o arferion sy'n llywodraethu gweithgareddau carcharorion, megis gwaith, addysg, prydau, ymarfer, cymdeithasu ac amseroedd cloi). Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, er y câi addysg a chyflogaeth eu gwarchod, câi cymdeithasu a gweithgareddau cyfoethogi eu cwtogi rhyw gymaint a chyfyngwyd ar ddarparu gweithwyr allweddol. Daeth staffio'n fwy heriol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn adrodd. Er gwaethaf camau lliniaru, cafwyd llai o amser y tu allan i'r gell ac roedd canslo gofal iechyd, addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hyfforddi yn rhywbeth mynych. Cafodd hyn i gyd effaith sylweddol ar gyfleoedd datblygu ac adsefydlu nifer o garcharorion, yn ogystal ag ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

O'r hyn yr oedd y Bwrdd wedi'i arsylwi, roedd arweinyddiaeth yn yr Uned Person Ifanc yn weladwy ac yn effeithiol. Mae'r gymhareb staff-person ifanc yn uwch o gymharu â'r prif garchar ac mae nifer y staff wedi'i chynnal yn ddigonol trwy gydol y cyfnod adrodd.

### 3.1 Prif Gasgliadau

**Diogelwch**

- O'n nifer cyfyngiedig iawn o arsylwadau, roedd staff derbyn yn groesawgar ac yn barchus, er gwaethaf cael carchar orlawn ac anhrefn weithredol ar brydiau.
- Roedd ychydig o oedi mewn asesiadau gofal iechyd i garcharorion oedd newydd gyrraedd.
- Parhau'n uchel oedd nifer yr achosion o hunan-niweidio o gymharu â charchardai tebyg[2], er eu bod fymryn yn is nag yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- At ei gilydd, lleihau wnaeth y defnydd a wnaed o gynlluniau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm, sy'n helpu i gefnogi carcharorion mewn perygl o hunan-niweidio a difa eu hunain ond cyfyngu ar adolygiadau prydlon wnaeth aseswyr nad oeddynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol a gofyn gormod o staff.
- Aros yn gyson uchel wnaeth lefelau trais ac, yn ol â staff a charcharorion, dyled a rhwystredigaeth gyda'r gyfundrefn oedd yn yn bennaf gyfrifol am hyn.
- Parhau i godi wnaeth y defnydd a wnaed o rym, gan gael effaith anghymesur ar garcharorion o leiafrifoedd ethnig.
- Roedd cyffuriau anghyfreithlon yn parhau ar gael, gyda chynnydd mewn cofnodion arsylwi camddefnyddio sylweddau (SMORS) a agorwyd yn ystod cyfundrefnau cyfyngedig. Bu gweithdrefn glinigol a gweithredol, wedi'i hanelu at leihau niwed a rheoli her cyffuriau yn y carchar, yn monitro ac yn cofnodi cyflwr ac ymddygiad carcharor pan gaiff ei amau o fod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau neu'n dod oddi arnynt.

---

[2]Cyfeiria 'Carchardai cymaradwy', y cyfeirir atynt trwy'r adroddiad hwn, at garchardai adsefydlu categori C fel y'u defnyddir gan HMPPS. Nid yw'r rhain yn llwyr adlewyrchu cymhlethdod demograffig y carcharorion yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

- Roedd yr Uned Person Ifanc i'w gweld yn cael ei harwain yn dda, er gweithaf heriau integreiddio.

**Triniaeth deg a dyngarol**

- Roedd llety'r oedolion, at ei gilydd, yn ddiogel ac yn ddigon glân, er nad oedd cawod yn y celloedd hynny oedd ar gyfer dau garcharor ac roedd gwaith rheoli sbwriel o amgylch terfynau allanol a'r iardiau'n parhau'n broblemus.
- Ailwampiwyd yr Uned Person Ifanc, gan sicrhau ystafelloedd o ansawdd dda gyda hylendid integrol a systemau galw.
- Roedd y Bwrdd yn bryderus ynghylch darpariaeth bwyd ar draws carchar yr oedolion, gyda dewis cyfyngedig a dognau anghyson, yn gysylltiiedig â materion goruchwylio'r cownter arlwyo. Fodd bynnag, yn sgil cynlluniau buddsoddi a diweddaru offer dros dro, roedd gwelliannau cymedrol ym maint y dognau bwyd ac yn opsiynau'r fwydlen iachach erbyn diwedd y cyfnod adrodd.
- At ei gilydd, roedd gwahanu i'w weld yn cael ei reoli'n dda gyda staff a charcharorion yn cadw'u pennau, fawr ddim defnydd o rym a carcharorion, fel arfer, yn deall y rhesymau am gael eu cadw ar wahân i weddill y carcharorion.
- Adroddwyd yn fynych am faterion gydag eiddo carcharorion yn ystod y cyfnod gwahanu a throsglwyddo, gan gynnwys colledion a swyddogion yn bod yn wael am gadw cofnod.
- Nid oedd dim tryloywder nac effeithiolrwydd gyda system y weithdrefn gwyno a'r system ymdrin ag eiddo.
- Roedd prinder staff a waethygwyd gyda nifer uchel yr achosion o oruchwylio carcharorion oedd yn gleifion mewn ysbyty ac oedi wrth fetio'n cael effaith negyddol ar gyflawni'r gyfundrefn.
- Ar brydiau, roedd cyfundrefnau cyfyngedig yn lleihau mynediad at waith, addysg a gofal iechyd, gan arwain at garcharorion yn rhwystredig, treisgar, hunan-niweidio ac yn camddefnyddio sylweddau.
- Roedd gweithwyr allweddol yn cyrraedd y targedau o ran nifer ond nid oedd cysondeb na pharhad i'w cael yn y nifer hon, gan gyfyngu ar berthynas ystyrlon staff a charcharorion ymhlith yr oedolion.
- Dangosai data cydraddoldeb wahaniaethau negyddol sylweddol i garcharorion o leiafrifoedd ethnig, er gwaethaf strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth actif a mwy o fentrau diwylliannol.

**Lechyd a lles**

- Roedd y bartneriaeth weithio well rhwng y carchar a'r bwrdd iechyd yn dangos posibilrwydd y gellid gwella dulliau gweithredol a strategol.
- O'r hyn y bu i ni ei arsylwi, câi gofal iechyd, yn cynnwys deintyddiaeth, ei gyfyngu gan le.
- Roedd oedi sylweddol i'w weld wrth drosglwyddo carcharorion i'r adran frys.
- Ym marn y Bwrdd, roedd anghenion gofal iechyd pobl ifanc yn cael eu bodloni'n dda.
- Yn aml, priodolwyd achosion o garcharorion yn hunan-niweidio i roi'r gorau i gymryd meddyginiaeth. Rydym yn deall fod dadansoddiad yr adran gofal iechyd, yn sgil hyn, yn awgrymu fod cyfran o'r achosion o beidio â chymryd meddyginiaeth yn gysylltiedig â phrofion cyffuriau gorfodol a fethwyd a/neu oedd â brys clingol iddynt.

- Dywedodd carcharorion wrth aelodau'r Bwrdd nad oeddynt yn teimlo eu bod yn rhan o wneud penderfyniadau.
- Mae'r Bwrdd o'r farn fod y cyfnod aros am drosglwyddiad i ysbyty diogel yn rhy hir.
- Nid oedd cynllun gofal digonol wedi i garcharorion ddychwelyd o'r ysbyty yn gyson ddiogel.
- Roedd cyfleusterau fferyllol i'w gweld i fod yn annigonol.
- Nid oedd digon o le o bell ffordd i wasanaethau deintyddol ac roedd y gyfradd canslo'n uchel.
- Roedd y llwythi achos ar gyfer y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau'n rhy uchel, ym marn y Bwrdd.

**Cynnydd ac Adsefydlu**

- O'r hyn yr oeddem wedi'i arsylwi, roedd ystod eang o addysg a chyrsiau yn eu lle, wedi'u hanelu at baratoi carcharorion ar gyfer gwaith.
- Ym marn y Bwrdd, roedd y ddarpariaeth addysg a gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer pobl ifanc yn dda.
- Roedd arweinyddion i'w gweld yn arddangos ymrwymiad mawr iawn i'w gwaith.
- Roedd cyfradd trosiant staff yn rhy uchel.
- O'r hyn yr oedd y Bwrdd wedi'i arsylwi, roedd safon y dysgu'n amrywio.
- Roedd cyfran y sesiynau/dosbarthiadau a gâi eu canslo'n rhy uchel; câi hyn effaith negyddol ar gynnydd a lles carcharorion.
- Nid oedd digon o staff yn y tîm Rheoli Troseddwyr.
- Roedd ystod dda o ymyraethau i'w gweld yn eu lle i helpu cyswllt â theuluoedd.

### 3.2 Prif feysydd i'w datblygu

***I'R GWEINIDOG***

- Mae'r oedi wrth gael cliriad fetio Shared Services Connected Limited (SSCL) wedi cael effaith fawr ar y gallu i benodi staff, yn enwedig swyddogion dalfa'r carchar, yn ogystal â staff iechyd, addysg ac arlwyo.. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflymu'r broses hon i sicrhau y gellir cael nifer angenrheidiol y staff wrth, hefyd, beidio â pheryglu diogeledd?

***I'R HMPPS A'R CYFARWYDDWR***

- O gofio pwysau cenedlaethol carcharorion ar draws y carchardai, nid yw'r ddarpariaeth staffio yn yr uned rheoli troseddwyr yn ddigonol i gwrdd â galw nifer bresennol y carcharorion yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Pa bryd wnaiff yr HMPPS roi arian ychwanegol i leddfu'r pwysau ar lwythi achos Rheolwr Troseddwyr Carchardai a hwyluso mwy o gynllunio dedfrydau mwy effeithiol?

***I'R PENNAETH GOFAL IECHYD A'R CYFARWYDDWR***

- Nid oedd digon o le o bell ffordd ar gyfer y gwasanaethau deintyddol ac roedd y gyfradd canslo'n uchel. Pa gamau pendant y mae'r Pennaeth Gofal Iechyd a'r cyfarwyddwr yn bwriadu eu cymryd er mwyn ymestyn mynediad at ofal deintyddol, yn cynnwys darpariaeth ataliol a thriniaeth frys brydlon?

- Ymestynwyd achosion o oedi wrth symud carcharorion i'r Adran Frys am gyfnodau nad oeddynt yn rhai brys. Ni fonitrodd yr adran gofal iechyd na G4S yr amseroedd aros na'r rhesymau.

  ○ Pa drefniadau y mae'r pennaeth gofal iechyd a'r cyfarwyddwr yn bwriadau eu rhoi ar waith i fynd ati i flaenoriaethu a monitro carcharorion er mwyn sicrhau na ddaw niwed iddynt yn ystod y cyfnodau hyn o aros?

  ○ Pa drefniadau casglu data y mae'r pennaeth gofal iechyd a'r cyfarwyddwr yn bwriadau eu rhoi ar waith er mwyn llywio strategaethau i wella prydlondeb trosglwyddo carcharorion i'r Adran Frys?

***I'R CYFARWYDDWR***

- Mae Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi parhau i brofi lefelau uchel o achosion o hunan-niweidio bwriadol o gymharu â charchardai tebyg. Pa gamau penodol fydd y Cyfarwyddwr yn eu cymryd i allu cynnal lleihad yn y digwyddiadau hyn?
- Mae carcharorion yn dweud na allant ymddiried yn y broses gwyno ac mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi gweld fod nifer o ymatebion o safon wael. Pa gamau y mae'r Cyfarwyddwr yn bwriadu eu cymryd i ailgodi hyder carcharorion yn y system a sicrhau fod ymatebion yn brydlon ac o safon gyson uwch?

### 3.3 Ymateb i'r adroddiad blaenorol

| **Gweinidog** | | |
|---|---|---|
| **Mater a godwyd** | **Ymateb a roddwyd** | **Cynnydd** |

| | | |
|---|---|---|
| Fel y bu i ni ddisgrifio'r llynedd, er gwaethaf ymdrechion y rheolwyr a staff yn y Parc a phob carchar yng Nghymru i gefnogi carcharorion sydd â dedfrydau Amddiffyn y Cyhoedd (IPP), mae ansicrwydd eu dyddiad rhyddhau yn achos o orbryder ac mae'n cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u datblygiad. Wedi dweud hynny, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion heriol ynghylch diogelwch y cyhoedd a goruchwylio trwyddedau. | Ar hyn o bryd, mae oddeutu 70 o garcharorion IPP yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.<br><br>Aiff swyddog ar raddfa Llywodraethwr yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc i banelau IPP er mwyn sicrheuir y deellir cynnydd yn dda ac y gellir cynorthwyo rhwystrau, y mae gofyn ymyrraeth/cefnogaeth carchar ar eu cyfer, yn strategol.<br><br>Mae gan Garchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc gontract seicoleg gyda'r Ymgynghoriaeth Seicoleg Fforensig, sy'n cynnwys y gofyn bod yr Ymgynghoriaeth hon yn rhoi rhyw gymaint o gymorth rheoli achos i garcharorion IPP. Mae eu contract, hefyd, yn cynnwys therapi seicolegol i ostwng achosion o aildroseddu, a gyflwynir un i un ac mae hyn wedi'i dargedu tuag at garcharorion IPP mewn rhai amgylchiadau i gynorthwyo gyda'u datblygiad.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Partneriaeth Dulliau Gweithredu Adferol Cymru (WRAP) hanner ffordd trwy brosiect dwy flynedd, wedi'i anelu at gynorthwyo carcharorion IPP yn y ddalfa. Golyga hyn weithio'n benodol yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. | Mae'r Bwrdd wedi methu cadarnhau nifer gyfredol y carcharorion IPP yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.<br><br>Mae paneli cynnydd IPP yn swyddogaeth ranbarthol yr HMPPS. Yn ystod y cyfnod adrodd, bu rhyw gymaint o sefyll yn llonydd wrth i wasanaethau ddisgwyl am gyhoeddiad Fframwaith Panel Cynnydd yr IPP, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2025.<br><br>Nid oes digon o adnoddau gan gontract yr Ymgynghoriaeth Seicoleg Fforensig gyda G4S (yn ogystal â chan Ymgynghoriaeth Seicoleg Fforensig yr HMPPS) oherwydd pwysau nifer y carcharorion. Oherwydd hynny, yn hytrach na gweithio'n uniongyrchol gyda charcharorion, mae'r contract hwn, yn bennaf, wedi rhoi goruchwyliaeth a chefnogaeth i Reolwyr Troseddwyr Carchardai wneud gwaith uniongyrchol.<br><br>Mae'r carchar wedi cael cefnogaeth Partneriaeth Dulliau Gweithredu Adferol Cymru (WRAP). Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff ond mae wedi cynnwys cefnogi rhai staff a charcharion i |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, hefyd, yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai a'u Rhaglen Building Futures, sy'n gweithio gyda charcharorion â dedfryd o dros ddeng mlynedd, i nodi gwelliannau i'r system garchardai i'r garfan hon. | gyflawni statws adferol achrededig.<br><br>Mae Rhaglen Building Futures yr Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai wedi stopio. Nid yw'n glir pam. Mae pennaeth newydd rheoli troseddwyr yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn edrych i mewn i hyn. |
| **I'r Gwasanaeth Carchardai** | | |
| **Mater a godwyd** | **Ymateb a Roddwyd** | **Cynnydd** |

| | | |
|---|---|---|
| Fel y sonnwyd yn adroddiadau blynyddol sawl Bwrdd a chan Fwrdd y Parc y llynedd, mae angen parhau i fonitro a sicrhau y dilynir Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion i sicrhau y trosglwyddir eiddo carcharorion gyda nhw. Parhaodd materion eiddo i fod nifer fwyafy ceisiadau carcharorion [cyfathrebiadau ysgrifenedig carcharorion] a dderbyniwid gan y Bwrdd Monitro Annibynnol yn y Parc ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â throsglwyddiadau o garchardai eraill. | Maes cyffredin o ran problemau yw lle caiff gormod o eiddo carcharor ei anfon ymlaen pan fo carcharor yn trosglwyddo. Pan fo cyflenwyr y gwasanaeth hebrwng carcharorion i'r ddalfa yn trosglwyddo eiddo sydd o fewn cyfyngiadau rheoli cyfeintiol Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion, ceir, at ei gilydd, ambell gŵyn ynghylch eiddo coll. O'r herwydd, mae'n hanfodol fod carcharorion yn cydymffurfio â chyfyngiadau rheoli cyfeintiol gan y bydd unrhyw beth y tu mewn i'r cyfyngiadau hynny yn trosglwyddo gyda nhw.<br><br>Ers y cyfnod adrodd, diweddarwyd y polisi gan sicrhau fod Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cydymffurfio â Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion. O gofio mai eiddo yw un o brif bynciau cwynion carcharorion yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, cynhelir cyfarfodydd gyda'r uwch-arweinyddiaeth yn rheolaidd. | Mae'r carchar yn gweithio i sicrhau y caiff eiddo gormodol ei anfon i Branston (depo storio a dosbarthu cenedlaethol yr HMPPS) neu i gyfeiriad enwebedig. Fodd bynnag, nid yw'n cydymffurfio â'r rheolaeth<br>cyfeintiol (y rheolau sy'n pennu faint o eiddo y caniateir i garcharor gadw gydag o). Mae prosesau newydd wedi'u rhoi ar waith i gadw golwg ar drywydd eiddo gwerthfawr. Mae'n ofynnol i garcharorion lofnodi i gadarnhau eu bod yn hapus gyda phopeth pan gyrhaeddant. Fel hyn, ceir cyfle gwell i ymchwilio os adroddir bod unrhyw beth ar goll, un ai cyn gadael a/neu wedi iddynt drosglwyddo.<br><br>Mae'r carchar wedi adolygu data cwynion 2024 yn ymwneud ag eiddo. Roedd cyfanswm o 37% o gwynion yn ymwneud â sicrhau fod carcharorion yn cael eu heiddo.<br>Yn sgil hyn, mae gwelliannau wedi'u gwneud i ddulliau danfon eiddo i |
| | dîm yn y carchar ac i bartïon perthnasol er mwyn sicrhau y cymerir camau priodol i unioni unrhyw faterion a gyfyd. | carcharorion. Roedd 18% arall o gwynion yn ymwneud â chlirio celloedd. Mae'r broses hon wedi'i diwygio, hefyd, i egluro cyfrifoldeb dros logio a chofnodi eiddo, gan sicrhau y byddir yn gorffen clirio o fewn y cyfnod amser cywir. |

# Adrannau tystiolaeth 4-7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a Sefydlu

Ni wnaeth y Bwrdd fonitro, fel mater o drefn, nifer y carcharorion a gyrhaeddodd na'r prosiect dyddiau cynnar yn y ddalfa (EDiC) yn ystod y cyfnod adrodd er iddo ymweld â'r ddau faes y nifer sylfaenol o weithiau.

O'r hyn a arsylwyd gennym yn ystod y ddau ymweliad â'r man derbyn, er gwaethaf rhyw anhrefn oedd i'w weld gyda nifer o garcharorion (12) yn cael eu cadw mewn un gell ddal, bu i ni nodi fod staff yn groesawgar. Yn amlwg, roedd staff yn adnabod rhai o'r carcharorion ond roeddynt yn rhoi mwy o amser i garcharorion newydd. Arsylwyd gennym fod tensiynau rhwng staff y carchar a gofal iechyd yn arwain at ychydig o oedi wrth i garcharorion gael eu gweld gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd. Chwiliwyd yr holl garcharorion yn drwyadl a pharchus a chafodd eu cyrff eu harchwilio gan belydr-x.

Er i staff roi eglurhad trwyadl am y compact (math o gontract) ymddygiad y gofynnir i garcharorion ei lofnodi, ni roddwyd amser i'r carcharorion ei ddarllen ei hunain ac ychydig o sylw a roddwyd i sicrhau fod y carcharorion yn llwyr ddeall y dogfennau yr oeddynt yn eu llofnodi.  Câi eiddo eu didoli'n effeithlon a dillad newydd eu rhoi i'r rhai hynny yr oedd eu hangen.

Rydym yn ymwybodol, ar un adeg o leiaf, nad oedd digon o adnoddau yn yr adain EDiC i asesiadau diogelwch gael eu cynnal.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae lefelau uchel o achosion bwriadol o hunan-niweidio'n parhau i ddigwydd yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc o gymharu â charchardai tebyg. Hyd at Awst 2025, pery'r Parc yr uchaf yn ei grŵp cymharol (digwyddiadau blynyddol, fesul 1000 carcharor).

Fodd bynnag, rhwng mis Ionawr a mis Medi 2025, syrthiodd digwyddiadau o hunan-niweidio a gofnodwyd rhyw fymryn, i 1465 o 1483 yn yr un cyfnod yn 2024. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sydyn mewn digwyddiadau, yn cyd-fynd â chyfnod pan oedd cyfundrefn gyfyngedig, gan fwyaf, yn y carchar.

Ar gyfartaledd, ailddigwyddiad yw dwy ran o dair o ddigwyddiadau o hunan-niweidio bwriadol, a hynny gan oddeutu 60 o garcharorion. O'r rhain, ystyrrir fod tua saith ohonynt yn hunan-niweidio'n fynych. Mae'r rhesymau dros adrodd ar hunan-niweidio bwriadol wedi amrywio yn ystod y cyfnod adrodd. Yn eu plith, roedd pryderon ynghylch meddyginiaeth, iechyd meddwl, y gyfundrefn, problemau canfyddiedig gyda staff neu gyfarwyddiadau staff ac, yn arbennig, duedd gynyddol o garcharorion yn gwrthod rhoi rhesymau yn ystod Medi 2025.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cofnodwyd 35 o achosion o hunan-niweidio bwriadol ymhlith pobl ifanc, nifer is nag ymlith yr oedolion.

Agorwyd cyfanswm o 1066 o ddogfennau ACCT (y broses a ddefnyddir i gynorthwyo carcharorion y nodir eu bod mewn perygl o hunan-niweidio neu ladd eu hunain.) yn ystod ein blwyddyn adrodd. Trwy gydol y cyfnod, bu tuedd barhaus at i lawr yn nifer gyfartalog y dogfennau ACCT a agorwyd pob mis. Nid yw'r capasiti wedi bod gan y Bwrdd i adolygu'n uniongyrchol, fel mater o drefn, safon y dogfennau ACCT. Fodd bynnag, o'n gwaith adolygu'n rheolaidd nodiadau o gyfarfodydd diogelwch, awgrymir nad oes digon o aseswyr ACCT i gwblhau gwiriadau mewn da bryd. Er ymddengys y

cynhelir yr arsylwadau gofynnol, mae pwysau ar staff yn aml, yn enwedig felly yn ystod y gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Bu'n ofynnol i Ombwdsmon Prawf Carchardai ymchwilio i wyth marwolaeth yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Digwyddodd tair ar y safle, dwy yn yr ysbyty, dwy o fewn 28 diwrnod i'r carcharor gael ei ryddhau; ac un yn y cartref, wedi i'r carcharor gael ei ryddhau ar drwydded dros dro. O'r rhain, awgryma adroddiadau dros dro yr Ombwdsmon Prawf Carchardai mai achos naturiol oedd y rheswm am bump o'r marwolaethau. Nid yw achos y tair sy'n weddill wedi'i bennu hyd yn hyn. Er bod unrhyw farwolaeth, wrth reswm, yn anffodus, mae'n hynod fod y cyfanswm yn is o gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf.

### 4.3 Trais a gostwng trais

Mae trais wedi aros yn gyson uchel yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn ystod y cyfnod adrodd o gymharu â charchardai tebyg, a hynny o ran ymosodiadau ar garcharor gan garcharor ac ymosodiadau ar staff gan garcharor. Roedd cyfanswm o 712 digwyddiad o drais rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau wedi bod mewn blociau tai preswyl gyda dyled yn cael ei nodi gan staff a charcharorionpam fod carcharorion yn ymladd. Yn fwy diweddar, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, roedd trais i'w weld yn ehangach trwy'r carchar, gyda'r carcharorion yn priodoli'r trais i'w rhwystredigaeth gyda'r gyfundrefn, yn enwedig felly gydag anghysonderau a newidiadau ar fyr rybudd.

Defnyddiwyd y cynllun her, cefnogaeth ac ymyrraeth (CSIP) yn strategaeth i leihau trais. Mae'r tîm diogelwch wedi gweithio'n gyson yn ystod y cyfnod adrodd i annog fwy o gydlynu ar draws yr amrywiol ddisgyblaethau yn y carchar, yn enwedig staff preswyl, darparwyr gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau, i gyflawni cynlluniau rheoli cadarn. Er y bu llawer o welliant mewn perthnasoedd yn strategol, ym marn y Bwrdd, cafodd y cyfyngiadau o ran staff yn ymchwilio i'r broses CSIP a'i hadolygu, effaith ar allu'r carchar i reoli trais ac arweiniodd hyn at oedi a gormod o gynlluniau CSIP yn cau'n rhy fuan.

Yn ystod y cyfnod adrodd roedd 76 achos o drais yn ymwneud â phobl ifanc. Er nad yw nifer ohonynt wedi bod yn ddifrifol, rhywbeth yn codi o ffrae bitw er enghraifft, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o nifer fechan o ddigwyddiadau mwy difrifol, a yrrwyd gan gysylltiadau â gangiau a sefydlwyd cynt yn y gymuned ond, hefyd, yn codi o led-gysylltiadau â gangiau a ffurfiwyd ar yr uned. Ymhlith y digwyddiadau mwy difrifol, mae ymosodiadau ar staff, gyda'r staff, y bobl ifanc neu'r ddau'n cael eu hanafu. Mae'n bwysig nodi fod yr uned wedi bod yn gweithredu, yn fras, ar hanner capasiti am ran fawr o'r cyfnod adrodd oherwydd gwaith ailwampio'r carchar rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2025. Yn sgil hyn, mae'r holl bobl ifanc wedi bod yn byw ar un uned breswyl yn hytrach nag ar ddwy. Mae'r sefyllfa hon wedi creu ychydig o heriau i staff wrth gadw pobl ifanc, sydd yng ngyddfau ei gilydd, ar wahân. Er mynd yn ôl i lawn gapasiti gydag ailagor yr ail uned breswyl, mae staff, hefyd, wedi'u herio gydag integreiddio carcharorion newydd. Er hynny, o'n harsylwadau, credwn fod yr Uned Person Ifanc yn uned a arweinir yn dda ac a chaiff ei goruchwylio'n agos gan dîm ymroddedig a phroffesiynol.

### 4.4 Defnyddio grym

Bu cynnydd cyson yn y defnydd a wnaed o rym ymhlith yr oedolion yn ystod blwyddyn galendr mis Ionawr 2024 hyd fis Rhagfyr 2025. Mae'r patrwm hwn wedi parhau trwodd i ddiwedd ein cyfnod adrodd i gyrraedd cyfartaledd o 5.7% digwyddiad fesul 1000 carcharor y mis. Er y bu cyfnodau byr pan ostyngodd digwyddiadau o ddefnyddio grym,

yn anad dim pan oedd y carchar yn gweithredu cyfyndrefn gyfyngedig yn bennaf, mae digwyddiadau, er hynny, wedi aros 25% yn uwch ar gyfartaledd nag yn y flwyddyn flaenorol. Priodolwyd nifer uchaf y digwyddiadau o ddefnyddio grym i garcharorion yn peidio â chydymffurfio, a staff yn atal ymosodiadau/ymladd. Adroddir fod achosion o ddefnyddio grym 91% yn uwch i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, hyd yn oed ar ol cyfrifo ar gyfer cyfansoddiad demograffig y carchar.

Bu dau achlysur yn ystod y cyfnod adrodd pan fo aelodau o'r Bwrdd wedi arsylwi digwyddiadau o ddefnyddio grym, yn ogystal â thri digwyddiad arall a arsylwyd wedi hynny ar gofnod oddi ar gamera fideo a wisgir ar y corff. Ar bob un o'r pum achlysur, gwelsom y technegau lliniaru'n cael eu defnyddio'n dda cyn ymyrryd yn gorfforol. Wedi hynny cadwyd gweithdrefnau priodol a chymesur. Oherwydd problemau technegol, mae'n anffodus y bu, ar adegau, oedi mawr yn y gallu i adolygu'r hyn a gofnodwyd ar y camera fideo a wisgir ar y corff. Mae hyn wedi peri rhwystredigaeth ymhlith carcharorion sy'n dymuno herio'u triniaeth ac mae hyn, hefyd, wedi peri i staff fod yn agored i gael eu cyhuddo oherwydd nad oedd tystiolaeth i'w chael mewn digon o amser i brofi eu bod wedi cydymffurfio. Gwaethygir hyn gan y ffaith nad yw teledu cylch cyfyng yn gweld popeth mewn nifer o fannau yn y carchar, gan gynnwys mewn rhai adrannau preswyl. O'r herwydd, mae mwy o ddibynniaeth ar yr hyn a gofnodir ar y camera fideo a wisgir ar y corff.

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Medi 2025, roedd achosion o ddefnyddio grym yn yr Uned Person Ifanc yn gyson uwch nag yn ystod yr un cyfnod yn 2024, ac eithrio yn y mis Awst. Mae cyfran y digwyddiadau sy'n ymwneud â phobl ifanc o leiafrifoedd ethig yn adlewyrchu'n fras amrywiaeth y carcharorion yn eu cyfanrwydd. Yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, defnyddiwyd technegau defnyddio cyn lleied â phosibl ar atal corfforol a rheoli hyn, blaenoriaethu strategaethau lliniaru a dulliau atal corfforol cymeradwy, gan barhau i ganolbwyntio ar leihau'r defnydd o'r rhain a hyd amser eu defnyddio. Tynnwyd y tân allan o lawer o'r digwyddiadau fel bod y person ifanc yn medru cerdded heb gymorth.

### 4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Mae cyffuriau'n parhau i fod ar gael, hyd yn oed yn fwy ar brif flociau tai oedolion nag yn unman yn y carchar, er bod faint oedd ar gael yn amrywio drwy gydol y flwyddyn. Parhaodd Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc i ddefnyddio SMORs yn rhan o'i strategaeth i nodi, monitro a chefnogi carcharorion sydd dan ddylanwad sylweddau. Agorwyd cyfartaledd misol o 148 SMORs rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mai 2025, er i'r cyfartaledd hwn gynyddu'n gyflym rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025. Fel gyda digwyddiadau o hunan-niweidio bwriadol, cyd-darodd y cynnydd hwn â chyfnod pan oedd y carchar dan gyfundrefn gyfyngedig. Cyd-darodd y cyfnod hwn, hefyd, gyda dechrau'r rhaglen ffenestri newydd. Bu cynnydd sylweddol mewn gweithgaredd dronau bryd hynny. Rhagwelir y bydd gostyngiad sylweddol yng ngweithgaredd dronau unwaith y bydd y rhaglen ffenestri newydd wedi'i chwblhau, rhaglen y mae G4S wedi ymrwymo i'w chwblhau erbyn mis Hydref 26.

Mae'r arweinyddiaeth wedi parhau i flaenoriaethu mynd i'r afael â sylweddau a ddygir i mewn i'r carchar, gyda nifer o ganfyddiadau trwy gydol y cyfnod adrodd yn adlewyrchu diwydrwydd y tîm diogelwch, a staff eraill yn dangos cynnydd wrth gyfyngu ar gyflenwad. Bu defnydd da, hefyd, o ddeallusrwydd yn ymwneud â chludo sylweddau anghyfreithlon i mewn i'r carchar a'i ddosbarthu yno, i wrthweithio llygredd a tharfu ar weithgareddau penaethiaid troseddau difrifol a threfnedig. Mae mynd i'r afael â chyflenwadau ac effaith sylweddau yn parhau'n flaenoriaeth uchel, lle mae gofyn bod yn wyliadwrus er mwyn canfod mathau newydd a gwahanol o sylweddau a ddaw i

mewn i'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys chwilio mwy ar staff ac ymwelwyr yn ogystal â defnyddio'r dechnoleg arloesol canfod cyffuriau.  Mae tystiolaeth hefyd fod cyffuriau'n cael eu paratoi i'w dosbarthu yn y carchar. Mae'r cyfran o'r charcharorion sy'n profi'n bositif i ddefnyddio cyffuriau'n parhau i fod yn rhy uchel, ar 26.35% ym mis Medi 2025, o gymharu â 23.33% ym mis Medi 2024.

Mae'r carchar wedi parhau i hyfforddi staff i weinyddu a defnyddio Nyxoid (chwistrelliad o naloxone i'r trwyn i wrthdroi dros dro effeithiau gorddos opioid).

Mae'n gadarnhaol  mai ychydig iawn o sylweddau anghyfreithlon sydd i'w weld yn dod i mewn i'r Uned Person Ifanc. Yn gyffredinol, nid yw profion gorfodol gan bobl ifanc am gyffuriau wedi esgor ar ganlyniadau positif trwy gydol y cyfnod adrodd, ac eithrio un prawf positif ym Mawrth 2025.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety a bwyd

**M**ae chwe bloc o dai yng ngharchar yr oedolion, gan gynnwys yr Uned Carcharorion Bregus. Ceir uned gofalu a gwahanu, lle preswylir carcharorion a wahenir oddi wrth eu cyfoedion am resymau disgyblaethol neu hunanwarchod ac uned dalfa fwy diogel a adwaenir fel Codi, lle preswylir carcharorion y mae angen mwy o gymorth dwys arnynt.

Mae gwead yr adeiladau i'w weld yn gadarn ac mae glanweithdra i'w weld yn ddigonol. Mae dau garcharor yn rhannu yn y rhan fwyaf o gelloedd, lle ceir cyfleusterau hylendid ond nid cawod. Mae problemau gyda sbwriel yn cronni yn yr iardiau ac o amgylch terfynau allanol adeiladau yn aml yn heriol.

Mae dwy uned yn yr Uned Person Ifanc a chafodd y ddwy eu hailwampio yn ystod y cyfnod adrodd. Ym mhob ystafell ceir cyfleusterau hylendid a system alw sy'n gysylltiedig â swyddfa'r adain.

G4S sy'n comisiynu'r arlwyo, a hynny gan Aramark Catering. Mae safon a maint y bwyd a geir, ar draws y prif garchar, wedi bod yn ddadl yn ystod y cyfnod adrodd hwn a rhai blaenorol, a hynny oherwydd nifer gynyddol y carcharorion ers i'r carchar agor yn 1997. Cydnabu'r Bwrdd bod angen ailwampio/moderneiddio'r gegin, a ddyluniwyd yn wreiddiol i ddiwallu ar gyfer oddeutu hanner y carcharorion y mae'n gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd. Hefyd, mae logisteg cludo bwyd i'r rhan fwyaf o fannau yn y carchar wrth, hefyd, ei gadw'n boeth, yn hynod heriol. At hyn, dywed carcharorion nad oes llawer o ddewis o fwyd i'w gael ac, oherwydd fod yr oruchwliaeth wrth y cownter arlwyo'n wael, mae faint o fwyd a geir yn annigonol i rai. Mae'r Bwrdd wedi clywed nad oedd llawer o fwyd neu ei fod wedi mynd i gyd, ar sawl achlysur, cyn i ddynion ddychwelyd o'u gwaith, eu haddysg neu'r mannau meddyginiaeth ac, felly, ni châi'r unigolion hynny ddigon o fwyd.

Mae rhai camau wedi'u cymryd i roi sylw i'r problemau hyn. Bwriad amlwg yw cael cegin newydd yn ystod gwaith ymestyn y carchar (y mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2029). Yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2025, nodwyd bod angen offer trydanol newydd a mwy addas i'r gegin er mwyn cyflawni'r gwasanaeth a chafwyd arian i brynu sosbenni Bratt newydd (offer cegin trwm a chryf a ddefnyddir mewn lleoliadau gwasanaeth bwyd mawr) a thegelli berwi. Gyda'r gwelliannau hyn, mae'n bosibl addasu'r fwydlen er mwyn cynnig dewisiadau iachach. Mae'r Bwrdd wedi gweld rhai gwelliannau yng ngwaith goruchwylio'r cownter arlwyo ac roedd carcharorion yn dechrau dweud bod ychydig o newidiadau i safon y bwyd a weinir.

Caiff bwyd i'r bobl ifanc ei goginio yn ffreutur y staff a'i ddanfon oddi yno. Yn adain G1, mae cegin ddysgu benodedig lle caiff prydau'r bobl ifanc ei osod a'i weini pan na chaiff y gegin ei defnyddio ar gyfer gwersi. Mae pobl ifanc ar y rhaglen goginio'n paratoi bwyd i ysgolion lleol ac i bobl ddigartref yn lleol. Mae ganddynt gymhelliant ychwanegol i ddysgu a chymryd rhan, yn enwedig felly lle cânt ychwanegu at eu prydau yn ystod yr amser dysgu. Nid yw'r cyfleuster hwn ar adain E1 a chaiff bwyd poeth ei weini o'r troli. Mae cwynion bwyd yn sylweddol is, fesul carcharor, nag yn y prif garchar.

## 5.2 Gwahanu

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd tri uwch-reolwr gweithredol newid yn eu tro yn yr Uned Gofalu a Gwahanu. Yn naturiol ddigon, mae hyn wedi tarfu rhyw gymaint ond, hefyd, mae hyn wedi gwella pethau ychydig. Un o'r rhain oedd ailgyflwyno'r grŵp gwahanu,monitro ac adolygu, fydd yn cynorthwyo i reoli gwaith yr uned yn fwy

effeithiol. Mae gwaith yn mynd rhagddo, hefyd, i leihau oedi yn y system ddyfarnu (gwrandawiadau disgyblu pan honnir fod carcharor wedi torri rheolau'r carchar).

Caiff y rhan fwyaf o garcharorion eu gwahanu am fynd yn groes i drefn dda neu am aros yn eu cell yn sgil dyfarniad. Roedd cyfartaledd y cyfnod aros rhwng mis Ionawr a mid Medi 2025 yn amrywio rhwng saith a 40 diwrnod. Gwrthododd nifer sylweddol o garcharorion oedd wedi'u gwahanu symud i amodau arferol, gyda'r bwriad o gael eu trosglwyddo allan o'r sefydliad. Mae'r camhoniad hwn wedi'i herio'n gadarn ac yn gyson gan yr holl staff a'r rheolwyr.

O gynnal gwiriadau lles ar garcharorion wrth iddynt gyrraedd, mae carcharorion, at ei gilydd, wedi dweud wrth y Bwrdd eu bod yn deall y rheswm am y symud, bod gwiriadau iechyd angenrheidiol wedi'u cymryd a bod eu dogfennau mewn trefn. Y gŵyn fwyaf cyffredin yw nad yw eu heiddo wedi dod i'w canlyn mewn amser a/neu bod nifer o'u heitemau wedi mynd ar goll neu wedi'u rhoi yn rhywle yn ystod y daith drosglwyddo. Ymddengys fod hyn yn fwy o broblem pan fo'r carcharorion wedi'u symud ar benwythnos. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi nad yw eiddo rhai carcharorion wedi'i gofnodi'n gywir ac nad yw dogfennau ar waith clirio celloedd bob amser wedi'i gwblhau.

Ym marn y Bwrdd, er bod carcharorion yn cael eu symud dan amgylchiadau llawn straen yn aml, roedd yr Uned Gofalu a Gwahanu'n ddigyffro a di-lol yn ystod ei ymweliadau. Mae'r gofyniad i ddefnyddio grym wedi aros yn isel. Roedd un achlysur pan oedd yn ofynnol defnyddio llety arbennig (lle caiff eitemau, megis dodrefn, dillad gwely a chyfleusterau glanweithdra eu symud er diogelwch) am gyfnod byr. Gwelwydd staff, gan aelodau'r Bwrdd, yn trin carcharorion oedd, yn amlwg, wedi cynhyrfu oherwydd eu cyflwr meddyliol, yn gadarn a chydag empathi a gofal mawr. Ac eithrio'r storfa eiddo, roedd yr amgylchedd, gan gynnwys y cawodydd a'r iard ymarfer yn lân ac yn daclus.

Roedd 108 achos o 'wahanu' (pan fo person ifanc yn cael ei symud oddi wrth ei gyfoedion a'i gadw ar wahân oddi wrth y prif garcharorion) yn yr Uned Person Ifanc rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025. Roedd cyfradd yr achosion o wahanu fesul 100 o garcharorion y mis ar gyfartaledd fymryn yn uwch nag mewn carchardai tebyg. Fodd bynnag, roedd nifer gyfartalog y dyddiau a dreuliwyd ar wahân yr isaf o'r holl garchardai tebyg. Y rheswm mwyaf cyffredin dros wahanu oedd disgwyl am ddyfarniad (oherwydd fod y carcharor wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau treisgar). Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn aros mewn amodau arferol yn ystod cyfnod o wahanu. Yn ystod arsylwadau'r Bwrdd o adolygiadau gwahanu, bu i ni nodi y câi pobl ifanc a ddewisodd ddod i'r adolygiad eu hannog i ymwneud â gweithwyr proffesiynol a chyfrannu at eu hintegreiddiad oedd wedi'i gynllunio. Roedd Datrys Gwrthdaro yn aml yn rhan o gynllun i ailintegreiddio pobl ifanc

### 5.3 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

Trwy gydol y cyfnod adrodd, mae'r carchar wedi gweithredu heb ddigon o staff, a hynny o ran presenoldeb a phrofiad.  Er bod recriwtio yn galonogol ar brydiau, roedd cyfraddau edifeirwch staff newydd yn uchel yn eu blwyddyn gyntaf yn y swydd.  Rai misoedd gwelwyd mwy yn gadael nag yn dechrau.

Rhwng mis Gorffennnaf a mis Medi 2025, roedd lefelau staffio'n arbennig o heriol, gan beri i'r carchar fod â chyfundrefn gyfyngedig ( amserlen feunyddiol lai lle mae carcharorion yn treulio llai o amser y tu allan i'w cell ac yn treulio llai o amser gyda gweithgareddau megis gwaith, addysg, ymarfer, cymdeithasu, y llyfrgell a'r gampfa) ar y rhan fwyaf o'r dyddiau. Gwaethygwyd y sefyllfa gan oedi parhaus (mwy na phedwar mis) gyda phroses fetio'r SSCL (y cwmni a gontractiwyd i gynnal y gwaith fetio). Ar un

pwynt, roedd mwy nag ugain swyddog dalfa'r carchar oedd wedi'u hyfforddi ond nid oedd modd eu defnyddio oherwydd nad oedd SSCL wedi gallu prosesu eu gwaith fetio. Cafodd y broblem hon effaith ar apwyntiadau i asiantaethau partner, hefyd, yn cynnwys iechyd, addysg ac arlwyo ar draws y carchar. Gwaethygwydy sefyllfa o ran diffyg staff gan nifer eithriadol o uchel o achosion o oruchwylio carcharorion oedd yn gleifion mewn ysbyty, saith y mis ar gyfartaledd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, lle roedd yn ofynnol i 20 neu fwy o swyddogion gael eu tynnu allan o'r carchar bob 24 awr. Er bod arweinyddion yn rhagweithiol ac yn cymryd camau i liniaru'r pwysau hyn ac yn defnyddio goramser (ar raddfeydd uwch) a staff o sefydliadau G4S eraill,  roedd effaith cyfyngiadau'r gyfundrefn ar garcharorion a staff yn sylweddol. Nid oedd drysau'r rhan fwyaf o'r dynion yn cael eu datgloi ar gyfer gwaith ac addysg ac, oherwydd nad oedd hebryngwyr ar gael, collwyd sawl apwyntiad gofal iechyd (gweler 6.5). Dywedai carcharorion yn aml fod llai o amser y tu allan i'w celloedd, diflastod a'r straen a achoswyd yn sgil newidiadau anrhagweladwy i'r gyfundrefn wedi cyfrannu at fwy o gamddefnyddio sylweddau, hunan-niweidio bwriadol a digwyddiadau treisgar.

Dengys data a gyflwynwyd gan y carchar fod 100% o'r sesiynau gweithiwr allweddol rheoli troseddwyr yn y ddalfa wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn ymwybodol na chaiff gweithiwr allweddol a enwir ei neilltuo i'r rhan fwyaf o garcharorion. Mae'r rhan fwyaf o sesiynau wedi'u cynnal gan garfan o staff sy'n gweithio shifftiau goramser. Effaith y dull gweithredu anghyson hwn yw fod carcharorion yn methu creu perthynas ystyrlon gyda gweithwyr allweddol i annog adsefydlu. Adeg yr adrodd, mae'r Bwrdd yn ymwybodol fod tîm yr arweinyddiaeth yn cymryd camau i weithredu dull mwy ansoddol a chyson o ran gweithio allweddol gyda rheoli troseddwyr yn y ddalfa.   Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar effaith y newidiadau posibl hyn i garcharorion ond bwriad y Bwrdd yw monitro hyn yn agosach dros y cyfnod adrodd nesaf.

O'r hyn yr oedd y Bwrdd wedi'i arsylwi, roedd arweinyddiaeth yn yr Uned Person Ifanc yn weladwy ac yn effeithiol. Mae'r gymhareb staff-person ifanc yn uwch o gymharu â'r prif garchar ac mae nifer y staff wedi'i chynnal yn ddigonol trwy gydol y cyfnod adrodd. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi fod nifer o staff a rheolwyr, yn ogystal ag asiantaethau cymorth, iechyd ac addysg, yn dod i'r briffio beunyddiol. Roedd hyn yn sicrhau ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r materion a dull amlddisgyblaethol gyda chamau cynllunio yr oedd eu hangen.  Mae'r Bwrdd wedi arsylwi'n uniongyrchol staff yn dangos lefel uchel o broffesiynolrwydd ac yn mynd ati'n fwriadol i ymwneud â phobl ifanc, gan gymryd amser i weld beth yw eu hanghenion a sut y gellir eu cefnogi orau.

Cynhelir cynghorau carchar yn y brif garchar ac yn yr Uned Carcharion Bregus bob mis. Yn y fformau hyn, rhoddir i garcharorion y cyfle i godi materion gydag uwch-staff ac asiantaethau partner, rhannu eu barn ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a chynnig syniadau ar gyfer rhoi sylw i rai o'r heriau a wyneba'r carchar. Mae pobl ifanc hefyd yn mynd i gyfarfod rheolaidd o'r cyngor, lle gallant roi eu barn ar yr uned yn ei chyfanrwydd a gofyn am eitemau a allai wella ansawdd eu bywyd.

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Noda strategaeth Cydradoldeb ac Amrywiaeth Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ei bartneriaethau allanol a'i brosiectau cynlluniedig, sy'n cyd-fynd â chalendrau diwylliannol blynyddol cyhoeddiedig yr HMPPS a G4S. Mae hyn yn sicrhau y cyflawnir digwyddiadau perthnasol sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi demograffeg carcharorion ar draws y carchar, megis dathlu Mis Hanes Pobl Ddu ac Wythnos Ymwybyddiaeth Pobl Drawsryweddol.

Er bod llai na 3% o'r carcharorion yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf, roedd yna ddull rhagweithiol i ddatblygu diwylliant Cymru a'r Gymraeg ymhlith staff. Ym mis Mai 2025, enillodd Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y category Crefftiau 3D anghenion dysgu ychwanegol. Daethant yn drydydd, hefyd, yn yr un gystadleuaeth. Ymgymrodd cymuned Gymraeg bloc T â her seiclo hefyd trwy seiclo'n rhithiol 77 milltir er budd y gymuned Gymraeg ei hiaith yng Ngharchar y Berwyn.

Mae'r strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn cynnwys calendr hyfforddi staff blynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb. Penodwyd cydlynydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth newydd i'r tîm cydraddoldeb ym mis Ebrill 2025. Mae deilydd y swydd wedi datblygu a lansio sawl menter newydd, gan gynnwys rhestr flynyddol o fforymau cyngor carcharorion ar gyfer pob nodwedd warchodedig (hynny yw, agweddau o hunaniaeth a warchodir yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, megis oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd, cred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Ymhlith y datblygiadau hyn mae siop gydraddoldeb, sy'n cynnig ystod ehangach o gynnyrch ar gyfer y gymuned drawsryweddol a hyfforddiant ddiwygiedig ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y cwrs hyfforddi cychwynnol, i holl staff gweithredol G4S sydd newydd eu penodi, sydd bellach yn ymgorffori cyfraniadau gan garcharorion o leiafrifoedd ethnig i godi ymwybyddiaeth o ystyriaethau diwylliannol a chrefyddol.

Cyflwyna'r tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth adroddiadau misol a chwarterol o ddadansoddiad data cydraddoldeb i arweinyddion. Ym mis Medi 2025, dangosoddd y canfyddiadau anghydbwysedd negyddol, sylweddol a gâi effaith ar garcharorion o leiafrifoedd ethnig ar draws ystod o fesurau. Er enghraifft, roedd carcharorion o leiafrifoedd ethnig 74% yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar lefel sylfaenol (yr isaf) y cynllun cymhelliant tra eu bod ond yn 37% yn fwy tebygol o fod yn gyflogedig o gymharu â charcharorion gwyn.

Cyflwynwyd, ar gyfartaledd, 29 o ffurflenni adrodd ar wahaniaethu y mis rhwng mis Ionawr a mis Medi 2025. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud ag ethnigrwydd a'r rhesymau mwyaf a chyffredin a nodwyd oedd materion bwlio neu staff. Fymryn dan chwarter o'r ffurflenni adrodd hyn gafodd eu caniatáu.

### 5.5 Ffydd a chymorth bugeiliol

Rhydd tîm y gaplaniaeth gyfleoedd i garcharorion addoli mewn grŵp neu'n unigol ar draws ystod eang o gredoau crefyddol. Maent yn cyfrannu'n helaeth i waith paratoi'r carchar ar gyfer gwyliau crefyddol megis Eid al-Fitr a'r Nadolig, a'u dathlu.

Nid yw'r cysylltiad rhwng y Bwrdd â thim y gaplaniaeth wedi bod yn helaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar bryderon y maent wedi'u codi gyda ni ynghylch carcharorion unigol ac o'u hymatebion pan ydym wedi tynnu eu sylw at faterion tosturiol a godwyd mewn ceisiadau (llythyrau ysgrifenedig carcharorion i'r Bwrdd), rydym wedi cael yr argraff fod y tîm yn gweithio'n effeithiol ac yn gydweithredol i gefnogi carcharorion. Mae'r Bwrdd, hefyd, wedi derbyn sylwadau hynod gadarnhaol gan garcharorion sydd wedi elwa ar waith y tîm.

### 5.6 Cwynion

Bu adroddiadau parhaus i'r Bwrdd gan garcharorion ynghylch prinder ffurflenni cwyno ar yr adeiniau. Dywedodd carcharorion, hefyd, nad oeddynt yn ymddiried yn y proses gwyno, yn benodol nad yw cwynion a gyflwynir yn cyrraedd hwb busnes [yr adran sy'n rheoli'r broses gwyno] y carchar a/neu bod oedi sylweddol rhwng cwynion yn cael eu

cyflwyno ac yn cyrraedd yr hwb busnes. Wrth ddilyn i fyny'r ceisiadau i'r Bwrdd ynghylch y materion hyn, mae'r Bwrdd ar ddeall nad oes proses sefydledig ar gyfer mynd ar drywydd cwynion, a hynny o'u cyflwyno (dyddiad ar y ffurflen) i'w cynnwys ar draciwr yr hwb busnes (y bas data cwynion).

Ymdriniodd y carchar â 3858 o gwynion yn ystod y cyfnod adrodd ac, o'r rhain, ymdriniwyd â 72% o fewn yr amser. Fodd bynnag, dychwelwyd nifer anhysbys o Comp1s (cwynion cyffredin) i garcharorion heb gael eu cofnodi, eu dyddio na'u llofnodi, ynghyd â nodyn yn datgan nad oedd y mater yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer cwyn ac yn eu cyfeirio at staff yr adain neu at fentoriaid cyfoedion am gyngor. Dywedodd nifer o garcharorion wrth yBwrdd am eu rhwystredigaeth a'u gwylltineb nad oedd y carchar yn cymryd eu cwynion o ddifrif.

Y pum prif faes cwyno oedd: eiddo (23%), ffreutur (4%), staff (3%), preswyl (3%) a gwaith (2%). Fymryn dros 10% o gwynion a ganiatawyd. O sampl ar hap o ymatebion i gwynion a adolygwyd mewn cysylltiad â cheisiadau i'r Bwrdd, mae'r Bwrdd wedi cael yr argraff fod safon nifer o ymatebion yn wael. Er bod lleiafrif o'r ymatebion a adolygwyd yn fanwl, ni wnaeth llawer roi sylw i sylwedd y gŵyn. Roedd rhai ymatebion yn osgoi rhoi ateb ac roedd geiriad ynghylch penderfyniadau canlyniadau yn aml yn amwys.

### 5.7 Eiddo

Materion eiddo oedd y gŵyn fwyaf cyffredin yn system gwyno'r carchar ac yn y ceisiadau a ddaeth i law y Bwrdd.

Ni welai'r Bwrdd unrhyw welliant sylweddol yn y modd y câi eiddo'r carcharorion eu trin na'u rheoli, naill ai yn ystod trosglwyddiad rhwng sefydliadau nac yn y carchar ei hun. Mae'r broses bapur sydd yn ei lle ar gyfer cofnodi a dilyn trywydd eiddo carcharorion yn hen ac nid yw'n addas i bwrpas ymdrin yn effeithlon â nifer fawr o eiddo a dderbynnir gan y carchar. Nid oedd darpariaeth 'y tu allan i oriau' yn y carchar, rhywbeth a barai i gardiau eiddo carcharorion (sy'n cofnodi eitemau carcharorion) beidio â chael eu diweddaru'n amserol i'r rhai a gyrhaeddai'n hwyr a/neu ar gyfer clirio celloedd ar benwythnosau, gyda'r nosau ac ar wyliau banc.

At ei gilydd, negyddol oedd profiad y Bwrdd o ddilyn i fyny geisiadau carcharorion oedd yn ymwneud ag eiddo. Er bod rhai staff a rheolwyr unigol yn ymatebol, yn aml iawn roedd yr anghytuno rhwng adrannau ynghylch cyfrifoldeb pwy oedd helpu carcharorion i gael hyd i eiddo coll yn tynnu sylw oddi ar waith datrys y broblem. O'r herwydd, gadawyd nifer o garcharorion heb eu heiddo am gyfnodau estynedig ac, mewn rhai achosion, ni chafwyd yr eiddo fyth yn ôl.

Tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd, sefydlodd y carchar grŵp adolygu eiddo carcharorion, dan arweinyddiaeth uwch-reolwr, gyda'r nod o wella ymdriniaeth y carchar ag eiddo. Bydd y Bwrdd yn monitro effaith y cynllun hwn yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

## 6. Lechyd a lles

### 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Trosglwyddodd gwasanaethau iechyd gofal (a ddarparwyd cyn hynny gan wasanaethau meddygol G4S) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ym mis Rhagfyr 2022. Cyflawnir gwasanaethau iechyd gofal trwy Femorandwm Dealltwriaeth rhwng y bwrdd

iechyd, Gweinidogion Cymru a'r HMPPS yng Nghymru. Darperir nyrsio cyffredinol, gofal sylfaenol, nyrsio iechyd meddwl, fferylliaeth a'r nyrs cyswllt dementia yn uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n comisiynu gwasanaethau meddygon, deintyddol ac optometreg, a hynny gan gontractwyr annibynnol. (Gweler Atodiad A).

Yn ystod rhan olaf o'r cyfnod adrodd, arsylwodd y Bwrdd gyfarfodydd partneriaeth strategol a gweithredol amlddisgyblaethol. Nodwyd gwelliant mewn gweithio mewn partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, G4S a'r HMPPS. Er bod effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau'n elfennol a heb ei ddatblygu, mae goslef y cyfarfod yn gadarnhaol, cydweithredol ac yn canolbwyntio ar ddatrys problemau. Ymddengys bod cytundeb cyffredinol bod angen ymestyn a gwella'r ddarpariaeth gyfredol yn sylweddol i gwrdd ag anghenion gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau demograffeg carcharorion hynod amrywiol.

O'r hyn y mae'r Bwrdd wedi'i arsylwi, mae materion amgylcheddol, ymarferol a logistaidd wedi cael effaith ar gyflwyno darpariaeth gofal iechyd yn ngharchar yr oedolion. Cyflwynir gofal ar wahanol adegau yn y blociau tai ac yn yr adran gofal iechyd (coridor ar floc preswyl). Mae trefniadau yn eu lle i sicrhau fod carcharorion sy'n preswylio yn yr Uned Carcharorion Bregus yn parhau i fod ar wahân i garcharorion eraill yn ystod apwyntiadau gofal iechyd. Mae prinder hebryngwyr, oherwydd prinder staff, yn cael effaith negyddol ar symud carcharorion rhwng lleoliadau er mwyn gwneud y mwyaf o ymgynghoriadau. Mae'r carchar yn cydnabod bod y prinder lle ar gyfer ymgyngoriadau clinigol ar draws y carchar yn cael effaith andwyol ar effeithlonrwydd y gofal y gellir ei ddarparu. Mae cynlluniau ar y gweill i greu ystafelloedd ymgynghori clinigol yn y prif fan gofal iechyd ac yn y blociau tai, ond araf iawn yw'r cynnydd.

Mae oedi sylweddol yn aml wrth gael carcharorion i adrannau brys ysbytai lleol pan fo raid. Nid oes data ar gael sy'n cadarnhau naill ai hyd yr oedi ar gyfartaledd na'r achos (h.y. cyfyngiadau ar hebryngwyr carchardai a/neu bwysau yn y GIG, megis amseroedd amser ambiwlansys a'r adran frys). Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, roedd 258 o ofynion am yr adran frys, 43 y mis ar gyfartaledd. O'r rhain, gwrthododd 25% o ddynion adael y carchar a gwrthododd 12% aros yn yr Adran Frys wedi iddynt gyrraedd. Mae rhai trafodaethau wedi dechrau gyda phartneriaid strategol, yn ymwneud ag a allai ymarferwyr nyrsio yn brysbennu ar y safle liniaru'r broblem hon.

Mae rhwystredigaeth yr oedolion gyda darpariaeth gofal iechyd wedi'i nodi'n ffactor sylweddol wrth gyfrannu at hunan-niweidio, yn ogystal â digwyddiadau treisgar eraill, yn y carchar. Ymddengys fod pryderon ynghylch gofal iechyd y bedwaredd broblem uchaf mewn ceisiadau (10%) gan garcharorion i'r Bwrdd Monitro Annibynnol.

Yn yr Uned Person Ifanc, ymddengys fod gweithio mewn partneriaeth fwy effeithiol a goruchwyliaeth agos gan reolwyr yn sicrhau y caiff anghenion iechyd plant eu bodloni'n dda. Defnyddir offeryn asesu iechyd cynhwysfawr (CHAT) i nodi anghenion iechyd unigolion pan fydd carcharorion yn cyrraedd, yna nifer o asesiadau manwl a phenodol yn ystod y dyddiau cynnar yn y ddalfa. Fel hyn, mae modd i'r tîm nyrsio helpu i ddatblygu perthynas gyda phlant. Mae dwy nyrs yn yr Uned Person Ifanc, sydd hefyd yn cefnogi plant yn ystod cyfnodau cynllunio eu trawsnewid a'u rhyddhau tra bônt yn y ddalfa. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn cefnogi penderfyniadau ynghylch gwahanu a datrys gwrthdaro, yn ogystal â rheoli gofynion meddygol a deintyddol y bobl ifanc. Mae cymorth ychwanegol ar y safle i anghenion iechyd meddwl pobl ifanc ar gael trwy bartneriaeth gyda seicolegwyr y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa a darperir Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Golyga swydd wag am nyrs CAMHS bod y gwasanaeth yn un llai.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

Rhoddir gofal iechyd cyffredinol (gofal sylfaenol) yn y carchar gan dîm o nyrsus, fferyllwyr a meddygon.

Mae carcharorion yn cael dau asesiad iechyd pan fyddant yn cyrraedd Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc gyntaf. Mae'r cyntaf, a gwblheir ar y diwrnod y bydd y carcharorion yn cyrraedd, yn rhoi sylw i unrhyw bryderon iechyd uniongyrchol. Cynhelir ail asesiad, mwy cynhwysfawr, cyn pen 72 awr ac mae'n cynnwys meysydd megis iechyd rhyw. Mae rhai carcharorion wedi dweud y bu oedi maith i gael yr asediadau hyn, rhywbeth all gael effaith uniongyrchol ar y broses ragnodi.

Y tîm nyrsio yw'r presenoldeb gofal iechyd mwyaf gweladwy yn y carchar, yn gweithio ar draws pob maes ac yn dod wyneb i wyneb â charcharion. Ym mis Hydref 2025, roedd 33 nyrs yn y tîm, yn cynnwys pum swydd wag, gyda dwy ohonynt wedi bod yn wag ers dros chwe mis. Mae cyfran sylweddol o amser nyrsio wedi'i ymroi i ymateb i ddigwyddiadau newydd, megis salwch acíwt, hunan-niweidio, defnyddio grym a chefnogi carcharorion dan ddylanwad sylweddau. Rydym wedi clywed am rai ymatebion nyrsio o safon dda i achosion brys - ac wedi'u harsylwi.

Ymhlith dyletswyddau nyrsio rheolaidd mae rheoli clinigau (438 clinig y mis ar gyfartaledd); monitro carcharorion nad ydynt yn teimlo'n dda (gyda 787 y mis o adolygiadau'r un diwrnod ar gyfartaledd); ac ymgymryd â dyletswyddau rhoi meddyginiaeth.  Mae'r tîm nyrsio'n arwain ar fonitro clefydau cronig trwy apwyntiadau cynlluniedig a rheolaidd, hefyd, er y gall natur anrhagweladwy gwaith acíwt gael effaith ar gyflawni hyn mewn mis penodol.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn sawl cais lle nad yw carcharorion sy'n dychwelyd o'r ysbyty (apwyntiadau brys ac arferol)  wedi cael gwneud cynllun mewn da bryd i sicrhau y gofelir amdanynt yn ddiogel.  Nid oedd protocol i'w weld yn ei le i reoli'n ddiogel y trawsnewidiadau hyn, gan adael carcharorion a staff gweithredol mewn perygl o niwed.

Mae'r tîm meddygon yn gweithio o ystafelloedd ymgynghori ar y coridor gofal iechyd ac anaml y byddir yn ymweld â'r blociau tai.  Mae meddyg yn ymweld â'r Uned Gofalu a Gwahanu unwaith yr wythnos. Mae'r tîm meddygon yn cynnwys meddygon locwm a fferyllwyr rhagnodi a gyflogir gan y gwasanaeth meddygon a gomisiynir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf[3]. Cwyna nifer sylweddol o garcharorion nad ydynt yn gallu gweld meddyg a/neu fferyllydd rhagnodi mewn da bryd. Ni chafodd oddeutu 32% o ymgynghoriadau wyneb yn wyneb eu cynnal rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025 . Cynhaliwyd y rhain un ai dros ffôn yn y gell neu fel ymgyngoriadau o bell, lle mae carcharor yn cyflwyno cais a gall y clinigwr ddatrys y mater heb na'i weld na siarad ag o'n uniongyrchol. Mae'r mater hwn yn amlwg iawn ymhlith y ceisiadau iechyd a godir gyda'r Bwrdd.

At hyn, cafodd 13% o'r holl apwyntiadau a drefnwyd yn ystod yr un cyfnod eu canslo. Roedd hanner yr apwyntiadau a ganslwyd yn faterion oedd yn ymwneud â'r carchar (e,e dim hebryngwyr ar gael); cafodd tua chwarter eu ganslo gan iechyd gofal a chafodd mymryn dros 15% eu canslo gan garcharorion eu hunain. Er y gallai oedi o'r fath adlewyrch'n fras y rheiny a brofir yn y gymuned, dylid nodi fod gan garcharorion lai o ddewis o ran ceisio cyngor, megis ymweld â fferyllydd. Gall carcharorion ddefnyddio'r

[3]Mae dau fath y clinigwyr wedi'u crynhoi at ei gilydd fel 'apwyntiadau meddygon' mewn ystadegau a gyfrifwyd.

broses gwyno os ydynt yn anfodlon gyda'r gwasanaeth meddygon ond mae prydlondeb a safon ymatebion yn wael.

Mae pryderon ynghylch newidiadau, gostyngiadau a rhoi'r gorau i feddyginiaeth i'w weld yn amlwg mewn ceisiadau i'r Bwrdd. Er y gallai newidiadau i feddyginiaeth godi'n gyfreithlon am nifer o resymau. yn aml caiff carcharorion y penderfyniadau hyn yn anodd eu deall neu eu derbyn. Ein hargraff ni yw fod gostwng dos cyn rhoi'r gorau i'r feddyginiaeth, yn aml yn gyflym iawn a chaiff ei wneud heb ystyried barn y carcharor. Yn rhy aml, ni chaiff y penderfyniad ei gyflwyno mewn ffordd y gall y charcharor ei ddeall, gan arwain at achosion o hunan-niweidio neu darfu ar eraill. Dywed carcharorion na chânt y cyfle i drafod y penderfyniadau hyn. Dywedant mai prin y caiff trafodaethau eu cynnal wyneb yn wyneb ac weithiau y cânt eu rhybuddio y byddir yn dod â'r alwad i ben os ceisiant godi'r mater.

Mae'n amlwg nad oes digon o adnoddau mewn cyfleusterau fferyllol i nifer carcharorion sydd wedi tyfu, gyda lle annigonol i storio meddyginiaeth. Terfir ar gynnydd carcharorion sy'n derbyn triniaeth amnewidion opioid oherwydd nad oes peiriannau rhoi methadon ar yr unedau preswyl, lle gallent, fel arall, gael eu lleoli i'w cynorthwyo gyda'u hadsefydliad.  Mae materion wedi codi mewn mannau rhoi meddyginiaeth ar yr adeiniau pan nad oedd meddyginiaeth ar gael. Roedd hyn i'w briodoli, gan y staff fferyllol, i'r achlysuron pan mai nyrsus asiantaeth, nad oeddynt eu hunain yn gyfarwydd â systemau carchar, oedd yn rhoi'r feddyginiaeth, gan beri ansicrwydd ynghylch sut i unioni problemau mewn da bryd. Gall hyn arwain at oedi wrth ddarparu meddyginiaeth, gan achosi gofid i garcharorion a chamddealltwriaeth rhwng staff gofal iechyd, staff gweithredol a charcharorion. Yr effaith gyffredinol yw fod carcharorion yn cael gwasanaeth gwaelach, ym marn y Bwrdd.

<u>Deintyddiaeth ac ophthalmopatheg</u>

Mae'r gwasanaeth deintyddol wedi'i gyfyngu oherwydd mai un gadair ddeintyddol sydd ar gael. Nid oes datblygiadau amlwg i'w gweld o ran cynlluniau am ail ystafell. Rhwng mis Mai a mis Hydref 2025, cynigiwyd 267 o apwyntiadau misol, ar gyfartaledd, gyda chyfradd canslo o oddeutu 35%. O'r rhain, carcharorion ofynnodd am oddeutu 60% ac roedd 30% oherwydd materion yn ymwneud â'r carchar. O'r 775 apwyntiad a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn, oddeutu 3% yn unig oedd yn archwiliadau arferol. I bob diben, darpariaeth achosion brys yn unig oedd y gwasanaeth deintyddol yn ei rhoi.

Mae'r optegydd yn gweld cleifion mewn ystafell ymgynghori yn yr adran gofal iechyd, a hynny ar yr uned carcharorion bregus ac yn y prif garchar. Rhwng mis Mai a mis Hydref 2025, cynigiodd yr optegydd 58 o apwyntiadau'r mis, ar gyfartaledd. O'r rhain, ni aethpwyd i 40% ohonynt (nid oes data ar gael i roi'r rhesymau am hyn). Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu newid mewn darparwr, gan achosi bwlch mewn darpariaeth o oddeutu dwy i dair wythnos. Etifeddodd y darparwr newydd dipyn o ôl-groniad. I roi sylw i hyn, darparwyd clinigau ychwanegol yn ystod mis Awst a mis Medi 2025. Ym mis Hydref 2025, roedd rhestr aros o 148 o garcharorion ac roedd rhaid disgwyl 76 diwrnod i weld optegydd. Fodd bynnag, unwaith y mae carcharor wedi'i weld, ceir sbectol newydd o fewn pythefnos.

### 6.3 Lechyd meddwl

Tîm gofal sylfaenol o nyrsus a thîm seiciatryddol fforensig mewngymorth sy'n cyflenwi gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r timau'n gweithio'n agos gyda thîm diogelwch y carchar ond cyfyngedig yw ei wasanaethau seicolegol. Gofelir am y rhan fwyaf o garcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol gan staff gweithredol y carchar nad oes ganddynt hyfforddiant meddygol, yn yr Uned Dalfa Fwy Diogel a chyda

chefnogaeth y gwasanaethau iechyd meddwl. O gofio'r lle cyfyngedig sydd yno, mae meini prawf clir yn eu lle i asesu addasrwydd am le yn yr Uned Dalfa Fwy Diogel . Yn aml iawn, ceir rhestr aros am le a reolir drwy'r Cyfarfod Ymyraethau Diogelwch amlddisgyblaethol wythnosol. Mae'n werth nodi fod y Bwrdd wedi arsylwi'n uniongyrchol staff y carchar yn trin carcharorion oedd yn teimlo'n wael iawn gyda pharch ac empathi.

Mae'r tîm iechyd meddwl gofal sylfaenol yn ymateb i'r holl geisiadau newydd i gael eu gweld trwy ofyn i'r carcharor gwblhau holiadur, a ddefnyddir i benderfynu cynnig apwyntiad ai peidio. Ar gyfartaledd, ceir 176 o apwyntiadau'r mis ar gyfer apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol. Mae'r tîm yn gweld 51 o gleifion newydd y mis ar gyfartaledd, gyda bron i bob claf newydd yn cael ei weld o fewn cyfnod targed o 28 diwrnod. Mae'r tim yn gyfrifol, hefyd, am roi'r algorithm iechyd i'r holl garcharorion sydd newydd eu gwahanu ac am gyfrannu at benderfyniadau ynghylch ffitrwydd carcharorion o ran parhau i'w gwahanu.

Mae niwroamrywiaeth yn gyffredin ymhlith y carcharorion: mae adain Cynwys yn arbenigo mewn gofalu am garcharorion â gofion niwroamrywiaeth ond mae ganddi restr aros.

Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) a'i driniaeth gyda meddyginiaeth yn bryder cyffredin a godir gyda'r Bwrdd. Nid oes gwasanaeth diagnostig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac ni all carcharorion gael at asesiad preifat (opsiwn sydd ar gael yn y gymuned). Cyfyd materion llywodraethol pan ddaw carcharor i Garchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ar feddyginiaeth am ADHD sydd un ai wedi'i ragnodi'n breifat neu ei ragnodi gan feddyg heb arbenigwr amlwg yn goruchwylio. Dan yr amgylchiadau hyn, gall tîm iechyd y carchar fod yn gyndyn o barhau gyda'r feddyginiaeth. Gall yr effaith ar garcharorion pan roddir gorau i gymryd meddyginiaeth fod yn ddifrifol. Disgrifia carcharorion iddynt o bosib fod wedi bod ar feddyginiaeth ers eu plentyndod neu eu glaslencyndod neu eu bod wedi cael diagnosis fel oedolyn a bod meddyginiaeth wedi'u helpu. Disgrifia nifer pa mor anodd y gall adsefydlu fod heb feddyginiaeth. Gellid nodi yr achosir ymddygiad negyddol, megis ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, hunan-niweidio a thrais yn sgil colli meddyginiaeth. Mae hyn oll yn cael effaith ar garcharorion eraill a staff. Mae carcharorion wedi dweud wrth y Bwrdd y teimlant yn aml na chaiff penderfyniadau ynghylch rhoi'r gorau i gymryd meddyginiaeth eu trafod yn ystyrlon. Yn sgil hyn, dywed llawer nad ydynt yn llawn ddeall y rhesymau am rai newidiadau i'w triniaeth.

Ym marn y Bwrdd, ni throsglwyddir carcharorion i ofal seiciatryddol diogel yn brydlon. Rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2025, trosglwyddwydd deg carcharor. Gallai gymryd nifer o fisoedd i ganfod lleoliad addas. Roedd hyd yr oedi, wedi canfod yr angen am wely arbenigol, yn amrywio o rhwng pedair a chwe wythnos yng Nghymru a saith mis i garcharor sy'n disgwyl cael ei drosglwyddo i ysbyty yn Lloegr. Nid yn unig y mae'r oedi hyn yn dreth sylweddol ar adnoddau carchar ond mae'n  niweidiol i garcharorion sy'n amlwg ddim yn dda o gwbl, At hyn, er ein bod wedi arsylwi sawl enghraifft o reoli risg, empathi a charedigrwydd priodol gan staff gweithredol sy'n gofalu am y dynion hyn, nid oes modd i hyn gymryd lle triniaeth a roddir gan weithwyr proffesiynol iechyd meddwl hyfforddedig.

Wrth gyrraedd Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, mae pobl ifanc yn cwblhau rhaglen o'r enw ‘Do it Profiler’, sef pecyn cymorth addysgol i asesu anghenion a nodi gwendidau penodol. Mae yn yr Uned Person Ifanc nyrs iechyd meddwl benodedig sy'n asesu anghenion ac yn cyfeirio pobl ifanc fel bo'r angen. At hyn, mae'r partneriaid Barnado's a gweithwyr achos y tîm anghenion, ymygysylltu a lles (NEWT) ar gael i

gynorthwyo pobl ifanc. Nodir fod nifer y bobl ifanc sydd wedi'u hadnabod yn niwroamrywiol wedi cynyddu yn y carchar ond gellid egluro hyn gan fod protocolau gwell i adnabod hyn pan fydd carcharorion yn cyrraedd Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

### 6.4 Gofal cymdeithasol

Mae'r tîm gofal cymdeithasol yn cefnogi dynion ag anghenion gofal cymdeithasol cymhleth, yn dilyn asesiadau a gynhelir ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr. Mae prydlondeb cynnal asesiadau wedi dod yn fwy heriol ers mis Ebrill 2025 oherwydd y bu swydd wag am therapydd galwedigaethol ers hynny. Mae'r rhan fwyaf o becynnau gofal y cytunwyd arnynt ar gyfer carcharorion hŷn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn preswylio yn yr Uned Carcharorion Bregus. Mae dwysedd y pecynnau hyn yn tueddu i fod yn uwch na'r rhai yn y gymuned. Y rheswm dros hyn yw nad oes modd darparu hyn ar lefel sy'n cyfateb i'r hyn y gallai aelodau'r teulu ei ddarparu, er gwaethaf y gofal arferol a roddir gan gyfoedion yn y carchar a staff gweithredol. Gyda thîm o ddeg gofalwr (naw mewn swydd ar hyn o bryd) ceir galwadau 30-90 munud hyd at bum gwaith y dydd. Ceisir cartref gofal i ddynion nad oes modd cwrdd â'u hanghenion gofal, er bod chwiio am leoliad addas yn hynod heriol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y pennaeth diogelu ar wyliau am sawl wythnos. Yn ystod yr adeg yma, cafwyd ôl-groniad o gyfeiriadau diogelu oedolion. Ym marn y Bwrdd, ni chafodd yr ôl-groniad hwn ei reoli'n dda o ran brysbennu a blaenoriaethu. Effaith bosibl hyn oedd na chafodd yr holl oedolion yr oedd angen eu hamddiffyn eu diogelu yn brydlon yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, unwaith y llenwyd y swydd, rheolwyd yr ôl-groniad yn gyflym ac yn effeithlon ar y cyd gyda'r awdurdod lleol.

Gwneir yr holl gyfeiriadau diogelu plant, gan gynnwys pryderon proffesiynol, i hwb diogelu amlddisgyblaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

### 6.5 Amser allan o'r gell/ystafell, y gyfundrefn

Sicrhau fod staff ar gael oedd y ffactor mwyaf a gâi effaith ar y gyfundrefn (gweler 5.3). Am lawer o'r cyfnod adrodd, roedd gan y carchar gyfundrefn (ambr) o lai o weithgareddau a gwasnaethau, er cynaliadwy, ar draws y carchar,  chwe diwrnod yr wythnos allan o'r saith, gydag un gyfyngedig (cyfundrefn goch) unwaith yr wythnos.  Yn ymarferol, golygai hyn fod amser cymdeithasu a gweithgareddau cyfoethogi yn fwy cyfyngedig na'r hyn y dylent fod wedi bod, er y câi cyflogaeth ac addysg oddi ar yr adain eu gwarchod. O ran cyfyngu ar amser y tu allan i'r gell, câi'r cyfyngiadau hyn fwy o effaith ar y rheiny oedd ar lefel sylfaenol (isaf) y cynllun cymhelliant ac ar garcharorion di-waith.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, daeth cyfyngiadau staffio'n fwy acíwt a rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, roedd nifer dyddiau'r gyfundrefn 'goch' yn drech na'r rhai 'ambr'. At hyn, daeth newidiadau munud olaf i'r gyfundrefn yn amlach. Yn ymarferol yn ystod y cyfnod hwn, golygai fod y rhai nad oedd mewn addysg na gwaith yn treulio 22 awr yn eu cell. Roedd yr holl garcharorion, yn cynnwys y rhai nad oedd mewn addysg na gwaith, yn treulio o leiaf ddwy awr allan o'u cell yn ddyddiol, yn cynnwys 30 munud o ymarfer y tu allan.

Adolygwyd y gyfundrefn yn rheolaidd gan y tîm arweinyddiaeth. O'r hyn yr oedd y Bwrdd wedi'i arsylwi, gwnaethent ymdrech i sicrhau tegwch o ran effaith y cyfundrefnau cyfyngedig ar draws y carchar. Er mwyn cael cymaint o amser allan o'r gell a bo modd, o fewn cyfyngiadau diogel, a hynny ar gyfer cymaint o'r carcharorion a bo modd,

cyflwynwyd cyfundrefn 'coch +', a roddodd mwy o hyblygrwydd i gymdeithasu i rai dynion, un ai yn y bore neu yn y prynhawn.

At hyn, er mwyn lleddfu pwysau (i staff a charcharorion) a gafwyd yn sgil cyfyngiadau'r gyfundrefn, cyflwynwyd yn gyflym gyfrifiaduron tabled i'r carcharorion yn eu cell a chwblhawyd hyn yn gynt nag a fwriadwyd ym mis Awst 2025. Nid yn unig oedd y carcharorion yn diflasu llai wrth ddefnyddio'r dyfeisiadau hyn, roedd eu defnyddio'n hwyluso cyswllt amlach gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. O ran diogelwch, roedd y tabledi'n ddull mwy effeithlon i garcharorion weld bwydlenni, gwneud apwyntiadau meddygol ac archebu o'r ffreutur (cyfleuster lle gall carcharorion brynu byrbrydau, pethau ymolchi, deunydd ysgrifennu a hanfodion eraill, gan ddefnyddio'r arian a neilltuwyd iddynt). Roedd hyn yn gymorth i lehau rhwystredigaeth carcharorion oedd yn gysylltiedig â defnyddio ciosgs, yn ogystal â'r gofyn i staff oruchwylio carcharorion yn y ciosgs ar yr adeiniau.

O'r hyn yr oedd y Bwrdd wedi'i arsylwi, roedd pobl ifanc yn cael digon o weithgareddau amrywiol ac amser o'u hystafelloedd, yn cynnwys addysg a hyfforddiant gwaith. Me'r holl bobl ifanc yn cael awyr iach yn rheolaidd trwy ymarfer a mynd i'r gampfa yn eu hamser hamdden. Mae staff yn creu amserlenni gweithgareddau cyfoethogi sy'n cynnwys diddordebau pobl ifanc, gan gynnwys tennis bwrdd, gemau fideo a cherddoriaeth. Mae'r holl bobl ifanc yn gallu cael ymweliadau cymdeithasol a galwadau fideo cymdeithasol yn ddyddiol. Mae gan bobl ifanc deleffonau yn eu hystafelloedd er mwyn cadw cysylltiad gyda'u teuluoedd. Ar gyfartaledd, 7.5 awr y dydd oedd yr amser a dreuliwyd allan o'r ystafell yn ystod y cyfnod adrodd.

### 6.6 Adsefydlu wedi alcohol a chyffuriau

Darperir gwasanaethau camddefnyddio sylweddau seico-gymdeithasol gan Dyfodol (a gomisiynir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a G4S a Gwasanaethau Gofal ac Adsefydlu). Mae arbenigwyrcamddefnyddio sylweddau, sy'n rhedeg y gwasanaeth fel consortiwm, yn gweithio mewn ystod o leoliadau cyfiawnder troseddol ar draws de Cymru. G4S Community Contracts yw'r asiantaetharweiniol, ochr yn ochr â phartneriaid trydydd sector. Ers 2023, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi comisiynu G4S Community Contracts i ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

Darperir model seico-gymdeithasol o gymorth i garcharorion â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Nod ymarferwyr ymyrraeth gynnar yw ymwneud â phob carcharor newydd. Wrth asesu carcharorion wrth iddynt gyrraedd, mae modd i'r rhai hynny ag anghenion acíwt gael ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o'u sefydlogi. Mae gwaith mapio taith adfer y dynion yn dechrau'n syth, gan eu matsio â math y cymorth. Gall y rhai hynny sy'n cytuno i ymyrraeth gael ystod o raglenni a gwaith grŵp. Fodd bynnag, mae gan bob gweithiwr achos lwyth achos o fwy na 100 o garcharorion, sydd wedi arwain at ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r perygl uchaf o niwed, yn aml ar draul cyflawni'n gyson ymyraethau cynlluniedig i bawb. Yn fwy cadarnhaol, i'r carcharorion hynny sy'n gweithio gyda Dyfodol ac a gaiff eu rhyddhau'n lleol, gwneir cyfeiriadau cymunedol yn barhaus, gan sicrhau parhad gofal trwy giât y carchar.

Mae llawer o garcharorion sy'n gweithio gyda Dyfodol i roi sylw i'w camddefnydd sylweddau hefyd yn cael triniaeth amnewidion opioid. Yn yr achos hwn, mae Dyfodol yn cydweithio gyda thîm gofal iechyd y carchar i gynnig, yr un pryd, y cymorth seicogymdeithasol a chlinigol sydd ei angen i helpu adferiad unigolyn.

Mae problemau alcohol a chyffuriau'n llai cyffredin yn yr Uned Person ifanc nag yn y prif garchar. Er bod faint o sylweddau a ddeuir i mewn i'r Uned Person Ifanc yn isel,

mae staff yn cadw llygad ar wahaniaethau yn ymddygiad y bobl ifanc, rhywbeth a allai fod yn arwydd o bresenoldeb sylweddau. Mae hyn, wedi'i gyfuno â chwilio dyfal dan arweiniad deallusrwydd, yn arwain at lwyddo i ganfod cyfran uchel o sylweddau. Mae gweithiwr arbenigol ar gamddefnyddio sylweddau'n addysgu'r bobl ifanc am effeithiau camddefnyddio sylweddau.

## 7. Cynnydd ac Adsefydlu/tuag at drosglwyddo neu ryddhau

### 7.1 Addysg, llyfrgell

Ers mis Rhagfyr 2022, Novus Gower, dan gontract i HMPPS yng Nghymru sydd wedi bod yn darparu'r gwasanaethau dysgu a sgiliau. Cyd-fenter rhwng Novus, Grŵp Dysgu, Hyfforddi a Chyflogi a Choleg Gŵyr, Abertawe yw Novus Gower. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn amrywio o gyrsiau lefel mynediad i astudiaethau gradd mewn addysg bellach. Darperir addysg a hyfforddiant i oedolion a phobl ifanc gan 68 o staff. Yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf (mis Ebrill 2024 hyd at fis Mawrth 2025), bu trosiant o 17% mewn staff. Goruchwylir y ddarpariaeth gan grŵp cymharol newydd o arweinyddion. O'r hyn y mae'r Bwrdd wedi'i arsylwi, maent yn ymrwymedig iawn i'w gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau a gwendidau darparu ac maent wedi cynhyrchu cynlluniau manwl i gael gwelliant.

Cynigiwyd ystod o brofiadau i garcharorion, yn cynnwys sgiliau sylfaenol mewn llythrenedd a rhifedd, lles, serameg, arlunio, cerdd, addysg gorfforol ac arlwyo. Roedd oedolion yn gallu cael darpriaeth yn amrywio o gymwysterau lefel mynediad i lefel 4. Mae pobl ifanc yn gweithio rhwng lefel mynediad a lefel 3. Mae 48% o oedolion a 67% o bobl ifanc yn dilyn astudiaethau lefel mynediad.

Roedd prosesau yn eu lle i sicrhau fod carcharorion newydd yn cwblhau prawf sefydlu addysg, oedd yn arwain at nodi llwybr dysgu unigol i bob carcharor. Fodd bynnag, dywedodd carcharorion wrth y Bwrdd bod trosglwyddo data i'r system sy'n sicrhau y neilltuir gwaith ac addysg, yn arwain at oedi'n aml, er bod y prawf wedi'i gwblhau'n brydlon. Roedd pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau sylfaenol. Roedd cyrsiauSgiliau Hanfodol Cymru i'w gweld yn cael eu dysgu'n dda i oedolion a phobl ifanc oedd wedi'u hynysu ond nid oedd y sgiliau hyn yn cael eu datblygu ddigon ar draws y cwricwlwm ehangach. At ei gilydd, roedd sgiliau darllen wedi datblygu'n dda.

Roedd Novus Gower wedi'i gontractio i gynnal 33 o ddosbarthiadau'n feunyddiol yn ngharchar yr oedolion, er y gellir cynnig hyd at 39 o ddosbarthiadau pan fo niferoedd staff yn caniatáu, er mwyn diwallu anghenion darparu Cymraeg, Saesneg a Mathemateg. Fodd bynnag, oherwydd prinder staff, sef athrawon a staff gweithredol yr oedd eu hangen i hebrwng carcharorion, caewyd 44% o ddosbarthiadau rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2025. Mae hyn yn golled sylweddol o ran cyfleoedd i garcharorion ddatblygu eu dysgu a'u sgiliau yng Ngharchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

Mae 68% o oedolion yn mynd i ddosbarthiadau a dim ond hanner o'r absenoldebau sydd wedi'u hawdurdodi, sy'n gwaethygu ymhellach y golled o ran dysgu . Yn fwy cadarnhaol, 97% yw cyfran y carcharorion sy'n dechrau cyrsiau ac yn eu cwblhau (heb gynnwys y rhai hynny a gaiff eu rhyddhau o'r carchar), gyda 90% yn ennill cymhwyster. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mewn canlyniadau ar draws grwpiau ethnig: er enghraifft, 51.6% yw graddfa llwyddiant oedolion Du, o gymharu â 74.2% i ddynion Prydeinig Gwyn ac 85.7% i ddynion Arabaidd.

Roedd rhaglen Shannon Trust yn ei lle a châi gwirfoddolwyr eu hyfforddi i gefnogi gwaith ei gweithredu. Un elfen arbennig o gref o ddarpariaeth oedd y dull y defnyddiwyd mentoriaid cyfoedion i gefnogi dysgu ar draws y safle. Dywedodd carcharorion wrth y Bwrdd y collwyd llawer o gyfleoedd i gynnal sesiynau pan oedd cyfundrefn y carchar yn eu hatal rhag gadael eu cell i gymryd rhan. Mae'r Bwrdd yn bryderus nad yw staff yn blaenoriaethu ddigon ar adael carcharorion allan o'u cell iddynt ymgymryd â sesiynau Shannon Trust, rhywbeth sy'n arwain at rai carcharorion yn colli cyfle i wella'u llythrennedd.

Gall pobl ifanc ddilyn un o wyth llwybr a ddarperir ac mae ystod dda o ddarpariaeth yn ei lle. Mae cyrsiau'n dechrau ar astudiaethau lefel mynediad ac yn codi i lefel 4, gan ymdrin â phynciau megis sgiliau hanfodol, dinasyddiaeth, cerdd ac arlwyo. Mae'r cyfraddau cadw ar gyfer pobl ifanc yn 97% gyda 93% yn ennill cymhwyster.

Fodd bynnag, ar adegau, gall y profiad dysgu fod yn heriol. Mae'n amlwg bod lleiafrif o bobl ifanc mewn rhai grwpiau'n tueddi i hawlio'r sylw, gan ddylanwadu ar yr agenda a rheoli lefel y sŵn. Yn sgil hyn, gall dysgu symud tuag at wylio fideos a defnyddio tactegau tynnu sylw. Er gwaethaf hyn, pery cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau mathemateg a llythrennedd ac mae digon o adnoddau yn y cyfleusterau addysg. Fodd bynnag, i ddysgu bod yn effeithiol rhaid i bob person ifanc gymryd rhan yn y gwaith.

### 7.2 Llyfrgell

Darparwyd prif lyfrgell safon uchel gan Greenwich Leisure. Roedd stoc dda o ystod o lyfrau ac roedd yn lle addas iawn i garcharorion ddarllen a gwneud gwaith ymchwil. Fodd bynnag, ym marn y Bwrdd ni châi ei defnyddio i'w llawn botensial. Nid oedd modd cael i lyfrgell yr Uned Carcharorion bregus am gyfnod hir (mis Medi 2024 hyd at fis Mehefin 2025) oherwydd anawsterau staffio. Fodd bynnag, roedd trefniadau yn eu lle i ddosbarthu llyfrau i'r Uned Gofalu a Gwahanu a mannau eraill yn y carchar o le nad yw carcharorion yn gallu ymweld ag o cymaint ag â'r llyfrgell. Roedd carcharorion yn gallu defnyddio'r system rheoli achos o naill ai'r ciosg neu'r tabledi personol i archebu a chyfnewid llyfrau.

Roedd gan bobl ifanc lyfrgell ar wahân yn eu huned, yr oedd yn hawdd iddynt fynd iddi'n rheolaidd.

### 7.3 Gwaith, hyfforddiant galwedigaethol

Ym marn y Bwrdd, gallai diwydiannau fod yn gryfder darpariaeth. Mae athrawon yn fedrus, mae ganddynt brofiad priodol ac maent yn hynod ymrwymiedig. Ymhlith y cyrsiau a gynigir mae gwaith coed, gosod brics, paentio ac addurno, dylunio graffeg a gyrru wagen fforch godi. Wrth weithredu'n arloesol, mae modd i ddysgwyr gael y cyfle i gwblhau cwrs amlsgiliau cyn penderfynu pa faes y dymunent ei astudio'n fanwl. 1% yn unig o garcharorion sy'n penderfynu gadael cyrsiau cyn eu cwblhau. Fodd bynnag, cafodd cyfyngiadau'r gyfundrefn effaith sylweddol ar y maes hwn. Cafodd bron i 40% o sesiynau diwydiannol eu canslo rhwng mis Mehefin a mis Awst 2025, gan gael effaith sylweddol ar gyfleoedd carcharorion i ddatblygu sgiliau cysylltiedig â gwaith i wella eu gobeithion o gael cyflogaeth wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Mae ystod dda o ddarpariaeth alwedigaethol yn ei lle i bobl ifanc, yn cynnwys cyrsiau mewn cyflogadwyedd, dinasyddiaeth a lles. At hyn, mae cynlluniau yn eu lle i ddarparu cwrs mewn barbro. Mae pobl ifanc, hefyd, yn cael cyfleoedd cyfoethogi, megis gweithgareddau hyfforddiant ac allgymorth Gwobr Dug Caeredin, megis sesiynau coginio, lle caiff prydau eu paratoi a'u rhoi i ysgolion a chyfleusterau gofal lleol. Mae hyfforddi mewn crefft hefyd ar gael i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth y tu draw i'r carchar,

gydag opsiynau megis toi, cynnal traciau trenau a chymwysterau cysylltiedig â warws ymhlith y rhaglenni sydd ar gael.

### 7.4 Cynllunio cynnydd ac adsefydlu, rheoli troseddwyr

Nid yw adsefydlu a rheoli troseddwyr yn faes sydd wedi'i fonitro'n agos gan y Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol, o arsylwi cyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr a'r Rheolwr, nad oes digon o staff o bell ffordd yn yr Uned Rheoli Troseddwyr. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd pwysau nifer y carcharorion ar draws carchardai'n genedlaethol. Ond mae ffactorau eraill, megis nifer fawr o swyddi gwag am staff a salwch staff, wedi cyfrannu. Cadarnhaol yw nodi, er gwaethaf y pwysau hyn, y blaenoriaethir presenoldeb carcharorion mewn rhaglenni achrededig, gyda chyfraddau cwblhau o 100% yn arwydd o hyn. Mae gan Reolwyr Troseddwyr Carchardai lwythi achos uchel. Er y caiff achosion eu blaenoriaethu yn ôl risg, o gofio y dosberthir dwy ran o dair o garcharorion Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn risg uchel neu uchel iawn, golygir mai ychydig o gapasiti sydd gan y Rheolwyr hyn i roi gwybod i garcharorion yn rheolaidd am gatagoreiddio penderfyniadau a chynlliau cyn-rhyddhau yn brydlon. Mae llawer o garcharorion wedi dweud wrth y Bwrdd nad oes neb erioed wedi trafod cynllun dedfrydau gyda nhw.

Mae pwysau nifer y carcharion yn genedlaethol - sy'n cyfyngu ar drosglwyddiadau i sefydliadau sy'n nes at adref cyn iddynt gael eu rhyddhau - ynghyd ag oedi yn y system barôl a newidiadau deddfwriaethol i ryddhau carcharorion a'u galw'n ôl yn ystod y cyfnod adrodd, wedi ychwanegu at y pwysau hyn. Mae ceisiadau i'r Bwrdd yn adlewyrchu rhwystredigaeth carcharorion yn sgil hyn.

### 7.5 Cyswllt teuluol

Caiff y ganolfan ymwelwyr ei staffio gan Gwmni Budd Cymunedol Invisible Walls, sy'n rhan o strategaeth y carchar i gefnogi teuluoedd. Eu nod yw darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a chryfhau cysylltiadau teuluol trwy helpu carcharorion aros mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r tîm, hefyd, yn gweithio gydag asiantaethau allanol, megis gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithwyr, i gefnogi carcharorion a'u teuluoedd.

Cefnoga Invisible Walls y staff mewn iwnifform yn y brif neuadd ymweliadau ac arwain ystod o ymyraethau. Ymhlith y rhain mae Sied Dynion, fforwm i garcharorion yn unig, lle gall dynion drafod yn agored faterion, megis plant yn mynd i mewn i ofal neu anawsterau gyda bod ar wahân i'r teulu; Ymweliad Cyntaf y Baban, sy'n fodd i dadau gwrdd â'u baban mewn lleoliad mwy preifat ahamddenol ac mae'n cynnwys ffotograffau i'w cadw; ac Ymweliadau Ffarwelio, sy'n rhoi'r cyfle i dad a phlentyn gael ymweliad olaf o ansawdd dda cyn i'r plentyn gael ei fabwysiadu, gyda chefnogaeth gweithwyr medrus cymorth teuluoedd.

Mae staff yr Uned Person Ifanc yn hwyluso'n rheolaidd fforymau teuluol rhithwir i rieni a rhieni corfforaethol (cynghorau lleol a sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n rhannu cyfrifoldeb am wneud yn siŵr y gwarchodir hawliau plant sydd â phrofiad o ofal ac y cânt yr un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill i ofyn cwestiynau, nodi pryderon a chynnig adborth). Darpara weithiwr teulu dynodedig becynnau gwybodaeth teulu i deuluoedd yr holl bobl ifanc sydd newydd eu derbyn. Cynigir ymyraethau, megis bathio a newid clytiau, i bobl ifanc sydd wedi dod yn rhieni. Mae'r bobl ifanc i gyd yn gallu cael ymweliadau cymdeithasol a galwadau fideo cymdeithasol. Mae gan bobl ifanc ffonau yn eu hystafelloedd i helpu i gadw cysylltiad â'u teulu ac mae llinell ffôn ddynodedig gyda gwasanaeth peiriant ateb i deuluoedd gysylltu â'r Uned Person Ifanc os a phryd y bydd angen.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer uchaf a argymhellir o aelodau'r Bwrdd | 17 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 1 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 5 |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r sefydliad[4] | 309 |

[4]Data ar goll Tachwedd 2024 a data wedi'i orgyfrifo mewn camgymeriad yng Ngorffennaf 2025.

**Ceisiadau i'r Bwrdd**

| Cod | Pwnc | Mis Ebrill 2023 – Mis Mawrth 2024 [5] | Mis Ebrill 2024 – mis Medi 2024 | Blwyddyn adrodd gyfredol |
|---|---|---|---|---|
| A | Llety, yn cynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 31 | 14 | 12 |
| B | Disgyblaeth, yn cynnwys dyfarniadau, cynlluniau cymhelliant, sancsiynau | 10 | 4 | 2 |
| C | Cydraddoldeb | 3 | 3 | 4 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, yn cynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell | 44 | 10 | 14 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, teleffonau, amddiffyn y cyhoedd, cyfyngiadau | 62 | 16 | 29 |
| E2 | Cyllid, yn cynnwys tâl, arian preifat arian gwario | 49 | 6 | 10 |
| F | Bwyd a cheginau | 52 | 11 | 7 |
| G | Iechyd, yn cynnwys corfforol, meddyliol, gofal cymdeithasol | 117 | 38 | 39 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 41 | 36 | 49 |
| H2 | Eiddo wrth drosglwyddo neu mewn cyfleuster arall | 142 | 15 | 29 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau | 10 | 2 | 15 |
| | Rheoli dedfrydau, yn cynnwys Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio | 111 | 18 | 34 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, yn cynnwys bwlio | 73 | 26 | 59 |
| K | Trosglwyddiadau | 13 | 11 | 16 |
| L | Amrywiol | 78 | 24 | 75 |
| | **Cyfanswm nifer y ceisiadau (ac eithrio dyblygiadau)** | **836** | **234** | **394** |

[5] Noder fod cyfnod adrodd blynyddol wedi newid ers cyhoeddi ein hadroddiad diwethaf; roedd ein hadroddiad blynyddol diwethaf yn ymestyn o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2024.

# Atodiad A

**Darparwyr gwasanaeth**

- Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Darparwr iechyd meddyliol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Gwasanaeth triniaeth am gamdrin sylweddau seicogymdeithasol: Dyfodol
- Gwasanaethau fferylliaeth rhagnodi a Meddygon: Marnell Medical Services
- Gwasanaethau deintyddol: Time for Teeth
- Optometreg: Ymddiriedolaeth Optegyddion Carchar
- Addysg: Novus Gower
- Cymorth Llythrennedd: Shannon Trust
- Cymorth Gwaith Achos yr Uned Person Ifanc: Barnardo's
- Gwasanaethau teuluol: Invisible Walls
- Gwasanaethau arlwyo: Aramark

OGL

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi gwybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom at imb@justice.gov.uk